# ECO'R WYDDFA

**RHIF 330**
**CHWEFROR 2006**
*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 16 CHWEFROR**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 26 CHWEFROR**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror | Chwefror 16 | Chwefror 26 | Waunfawr | Nan Roberts | 650 570 |

## Parti Clychau'r Grug

Cael seibiant mae'r merched yr amser yma o'r flwyddyn, yn dilyn nifer helaeth o weithgareddau yn ystod 2005. Ym mis Mawrth bu'r Parti yn diddanu mewn noson i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Nhafarn y Groes, Pentre Berw, ac yna cymerwyd rhan yn y gynulleidfa yng Nghapel Shiloh, Tregarth, ar gyfer y rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* ar S4C. Ddiwedd y mis, Cartref Nyrsio Penisarwaun a Chartref Maesincla, Caernarfon, oedd y mannau cyfarfod a hynny yng nghwmni preswylwyr y ddau gartref.

Ym mis Mai daeth yn amser i ddiddanu'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, lle mae'r croeso bob amser yn un gwresog gan eu bod yn mwynhau noson o adloniant Cymreig. Cymerwyd rhan mewn Cymanfa Ganu yn Llanllechid, a hefyd mewn cyngerdd codi arian i Eglwys Llanrug yn Ysgol Brynrefail.

Roedd nifer o'r merched yn aelodau o Gôr yr Eisteddfod a mwynhawyd y profiad o fod yn rhan o'r Côr yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac hefyd yng Ngŵyl y Faenol ddiwedd Awst.

Ailgychwynnwyd gweithgareddau'r gaeaf gydag ymweliad â'r Gymdeithas Undebol yn Betws yn Rhos, Swper Cynhaeaf yr Eglwys yn Nhregarth a Chymdeithas Lenyddol Undebol Bethel i gynnal adloniant i aelodau'r Gymdeithas yn y tri lle.

Ar ddiwedd Tachwedd cyflwynwyd noson Nadoligaidd i'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Victoria, yno ar wyliau *Turkey and Tinsel*, ac i ddiweddu ein gweithgareddau am eleni bu'r merched yn canu carolau yng Nghartref Plas Gwilym, Pen-y-groes a Chartref Foelas, Llanrug.

Fel canlyniad i werthu raffl yn y Victoria cyflwynwyd arian i dair elusen eleni, sef ymgyrch taith gerdded Dr Mererid Owen i Mecsico; Cancr y Prostad ac Apêl 5c Haf Thomas, er budd yr Ambiwlans Awyr. Yn ogystal, cyflwynwyd rhodd i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, er cof am aelod ffyddlon iawn o'r Parti a fu farw ym mis Mai, sef Jean Parc Jones o Ddeiniolen.

Os oes unrhyw Gymdeithas angen adloniant i gynnal noson cysylltwch ag aelod o'r Parti neu Glenys Griffiths ar (01248) 670102.

## RHODDION

**£20:** Er cof am Mrs Mary E. Pritchard, Namor, Stryd Siarlot, Llanberis.

**£10:** Mr Bert Pitts, 14 Cae Sarn, Groeslon; Mr Derek Williams, Bron Eilian, Dinorwig; Dilys Parry, Rhiwlas, er cof am Elfyn.

**£5:** Mrs Bet Lloyd Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Wendy James ac Yvonne Regan, gyda diolch i bawb am eu cefnogaeth; Heather Williams, Glasinfryn; John ac Elsie Owen, Hafod y Rhos, Llanrug; Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-Glo; Di-enw, Penisarwaun; Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, Cwm-y-glo; Nancy Humphreys, Ty'n Rhos, Bethel; Robin Crag, Caergrawnt; Di-enw, Llanrug.

**£3:** Rheon Roberts, 5 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Staff Syrjyri Waunfawr a Llanrug.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

## APÊL 5c HAF

Bydd yr Apêl tuag at Ambiwlans Awyr Cymru yn dod i ben ddiwedd mis Ionawr. Os oes unrhyw un gyda darnau 5c yr hoffent eu cyfrannu byddai Haf wrth ei bodd yn dod heibio i'w casglu! Cysylltwch â hi ar (01286) 673929.


Gwaith Plymio a Gwres Canolog
**Dafydd Williams**
(Rhiwlas)
**01248 353815**
Symudol:
**07887 525118**
Trin a Thrwsio Boileri
Tanwydd olew
*Gwasanaeth lleol dibynadwy a da*
CORGI ac OFTEC


canolfan gerdd **William Mathias**

**CHWEFROR**
5: Prynhawn Sul, 3.00 o'r gloch yn Stiwdio 2. **Llwyfan Cerdd**. Cyngerdd gan rai o fyfyrwyr Canolfan Gerdd William Mathias.
19: Cyngerdd Gala Creu Cyfle yng nghwmni Catrin Finch. Gwledd o ddiwylliannau Cymreig ac Ewropeaidd. Dewch i fwynhau gwledd o Gymru a'r Ewrop newydd.
21: Dydd Mawrth am 11.00 yb yn Ystafell C2. Darlith gan Geraint Lewis **'Canu Mawl' Cerddoriaeth Gorawl William Mathias.**

**MAWRTH**
4: **Cyngerdd Dathlu Gw^yl Ddewi** gyda **Rebecca Evans** ac **Eugene Asti**. Nos Sadwrn, 7.30 yn y Theatr.

**EBRILL**
20: Prynhawn Iau am 2.30. **Tonic – Swing.** Big Band Gwasanaeth Ysgolion William Mathias. Pensiynwyr am ddim. Rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw.

**16–23**
**Gw^yl Delynau Ryngwladol Cymru 2006**
Nos Sul, **16 Ebrill** am 7.30 yn y Theatr. Cyngerdd Agoriadol yr W^yl
Nos Fawrth, **18 Ebrill** am 7.30 yn y Theatr. Cyngerdd Traddodiadol.
Nos Fercher, **19 Ebrill** am 7.30 yn y Theatr. Cyngerdd gyda **Catrin Finch.**
Nos Sadwrn, **22 Ebrill** am 7.30 yn y Theatr. Cyngerdd gan delynores jazz drydanol o America, **Deborah Henson-Conant**. Cyfle na ddylid ei golli.
Prynhawn Sul, **23 Ebrill** am 2.30 yn y Theatr. Rownd derfynol **'Pencerdd'**. Prif gystadleuaeth yr W^yl. Gwobr: Telyn Gyngerdd arbennig gan CAMAC.
Cynhelir cystadlaethau yn ystod yr wythnos i rai dan 13 oed; dan 15 oed a dan 21ain. Am fwy o fanylion ewch i'r wefan: www.cg-wm.com

# O SIAMBAR SELWYN

Mae 'na fis eisoes o'r flwyddyn 2006 wedi mynd heibio, ac mae rhai yn dal i ofyn 'Sut Dolig nath hi?' gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda yr un pryd. Wel, mi fanteisia innau ar ddymuno un lewyrchus a hapus i bawb sy'n troi i mewn i'r Siambar.

I ateb y cwestiwn, do mi ges i ddiwrnod 'Dolig hapus a thawel, dim ond Myra a minnau. Mynd fel arfer i'r gwasanaeth i Gapel Cysegr, ymweld â ffrind neu ddau i ddymuno'n dda iddyn nhw, ac adre i fwynhau cinio, i ddarllen ac i ddiogi a sipian ambell i wydriad o win. Synnwn i ddim i mi syrthio i gysgu hefyd.

Ond doedd pethau ddim mor ddymunol y diwrnod dilynol. Edrychwn ymlaen at gael mynd i'r gêm ddarbi flynyddol rhwng Caernarfon a Bangor ar Faes Farrar. Yn wir, roeddwn i wedi addo cyfarfod â nifer o ffrindiau yno. Do, mi ges i fynd i Fangor, ond i Ysbyty Gwynedd yn hytrach nag i Farrar Road, ac yno y bûm i am dridiau.

Rydwi wedi dysgu un wers ers blynyddoedd bellach, sef pan fydda i'n cael gwahoddiad i rywle i roddi darlith neu i feirniadu mewn 'Steddfod, mi fydda i'n pwysleisio wrth dderbyn y gwahoddiad – OS BYW AC IACH. Yn wir, i un sydd eisoes wedi cael bonws o wyth mlynedd bron dros oed yr addewid, mae hyn yn gwbl angenrheidiol, yn enwedig pan mae nifer o'r gwahoddiadau hyn yn dod flwyddyn neu fwy ymlaen llaw.

Ia, wela i di dydd Llun ym Mangor, dd'wedais i wrth amryw. Wnes i ddim meddwl ychwanegu – 'os byw ac iach'. Mi fydda i'n fwy gofalus 'Dolig nesa, 'os byw ac iach'!

* * *

Mae fy nyddiadur i ar gyfer 2006 yn fwy du nag arfer. Dwi eisoes wedi ymweld â rhai o'r eisteddfodau lleol sy'n aelodau o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, ac sydd o fewn dalgylch Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau. Gobeithiaf fedru ymweld â phob un o fewn y tair blynedd, OS —. Dwi'n mawr obeithio y bydd hi'n gyfleus i mi fynd i Gymdeithas Gymraeg Bae Trearddur a'r Cylch, Cymdeithas Gymraeg Manceinion, a Chymdeithas Gymraeg Dinbych yn ystod y mis hwn. Rwy'n sylweddoli hefyd y cynhelir Eisteddfodau Chwilog a Garn Dolbenmaen yn ystod y mis. Hefyd mae 'na bwyllgorau ynglŷn â'r Brifwyl i'w cynnal yn Aberystwyth ac yn Yr Wyddgrug. Mis go brysur i ddechrau blwyddyn newydd.

Dwi'n hynod falch fod 'na amryw yn dangos diddordeb i ymaelodi â dosbarth dysgu cynganeddion Karen Owen ym Methel. Mae 'na fwy o hwyl o lawer i'w gael wrth drafod y gynghanedd mewn dosbarth nag a geir wrth geisio ei dysgu drwy lyfrau. Mae Karen yn sicr o lwyddo i ddysgu'r rheolau i chi, ond cofiwch fedar hi ddim eich dysgu i fod yn feirdd, fel y dywedodd fy hen gyfaill, y diweddar Brifardd Rolant o Fôn;

*'Nid yw gwybodaeth o'r gynghanedd ohoni ei hun yn gwneud bardd.'*

Câf wahoddiad caredig gan ambell ysgol i ddod yno i sôn am yr Eisteddfod a'r Orsedd ac am swydd yr Archdderwydd, gan ofyn i mi ddod â gwisg yr Archdderwydd gyda mi. Wel, yn anffodus mae hyn yn gwbl amhosibl. Mae'r wisg a'r goron, y wialen a'r ddwyfronneg, yn cael eu cadw yn ddiogel yn Sain Ffagan. Yr unig dro y byddaf yn ei gwisgo (a tydi hi ddim yn wisg gyfforddus, yn enwedig ar dywydd poeth – mae yn eithriadol o drom), ydi ar ddydd y Cyhoeddi ac yn seremonïau'r Orsedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Mi fydd 'na gynrychiolaeth o'r Orsedd yn mynychu seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Môn eleni, ar 6 Mai, gan y bydd hwn yn achlysur dathlu canmlwyddiant yr Eisteddfod. Deallaf y byddwn yn gwisgo ein gwisgoedd Gorseddol ar gyfer yr amgylchiad arbennig hwn. Hefyd byddaf yn ei gwisgo pan yn ymweld â Gorsedd Llydaw a Chernyw.

Fyddwn i ddim yn hoffi y cyfrifoldeb o gadw gwisg mor gostus yn fy nghartref. Yr unig beth sydd yn fy meddiant ydi modrwy yr Archdderwydd, ac mae 'na hanes diddorol i honno.

Pan etholwyd Cynan yn Gofiadur yr Orsedd yn 1935, fe welwyd newid mawr yn seremonïau'r Orsedd. Cannwyll llygaid Cynan oedd yr Orsedd a daliai ar bob cyfle i sôn am y seremonïau a'r symbolau wrth ddieithriaid. Roedd o mewn cinio un tro ac yn eistedd ar yr un bwrdd ag un Mr Isaac, a oedd yn emydd (*jeweller*). Roedd y gemydd wedi cael boddhad mawr wrth wylio seremoni'r Cadeirio ac yn dymuno cael cynnig rhodd i'r Orsedd. Bu trafodaeth rhyngddynt ac fe awgrymodd Cynan y carai gael modrwy sêl i'r Archdderwydd, gyda nod cyfrin yr Orsedd arni fel y gellid ei defnyddio i selio dogfennau swyddogol. Roedd y gemydd yn fodlon, ond ychwanegodd,

*'We had a slightly higher figure in mind.'*


Yn gynnil a chwrtais a chyda'i dafod yn ei foch yn fwy na dim, awgrymodd Cynan y byddai modrwy gyffelyb yn dderbyniol gan y Cofiadur hefyd. A dyna sut y daeth dwy fodrwy yn rhan o regalia'r Orsedd.

Pan urddir Archdderwydd, fe'i harwisgir ag arwyddion ei swydd: y Goron, y Ddwyfronneg a'r Deyrnwialen. Ar ôl derbyn y fodrwy bu'n rhaid i Cynan ei chynnwys yn y ddefod liwgar a luniwyd ganddo ar achlysur yr Gorseddu. Felly, wrth osod y fodrwy ar fys yr Archdderwydd Etholedig, bydd yr Archdderwydd yn llefaru:

*'Llewyrch y Goleuni sydd ar y fodrwy hon a fyddo ar dy holl waith.'*

Na, fedra i ddim dod â'r wisg i'w dangos ond mae'r fodrwy yn llawer ysgafnach.


FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr
Llanrug
Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –
Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*

ARVONIA
cpt
- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

## UN FUNUD FACH

### Y TRI HYN

Anodd dychymygu dryswch a phoen y bobl yng nghapel Sago, Talmansville, Gorllewin Virginia ddechrau Ionawr. 'Roedd ganddon ni wyrth,' meddai un ohonynt, 'ac fe'i cymerwyd oddi arnom.' Wedi dau ddiwrnod o chwilio am dri ar ddeg o lowyr a ddaliwyd dan ddaear daeth y newydd bod deuddeg ohonynt yn fyw. Ond o fewn yr awr gwelwyd mai fel arall yr oedd, ac mai un yn unig a achubwyd.

Roedd y bobl hyn un funud yn canu gyda'r Salmydd, 'Yr wyt wedi troi fy ngalar yn ddawns' (Salm 30:15); a'r funud nesaf yn griddfan gyda'r proffwyd, 'Diflannodd llawenydd ein calonnau, a throdd ein dawnsio yn alar' (Galarnad Jeremeia 5:15). Drylliwyd y gobaith am weld y dynion yn cerdded o'r pwll, a siglwyd o bosibl rywfaint ar ffydd y Cristnogion oedd yn y capel hwnnw. Wedi clywed bod y 'wyrth' wedi digwydd a'r dynion yn ddiogel, roedd un o'r perthnasau wedi dweud: 'Mae'r Duw a wasanaethwn yn Dduw da. Ond rwyf am i America wybod, pe byddai'r stori hon wedi darfod yn wahanol, yr un Duw da fyddai'n Duw ni.' Gwaetha'r modd, fe ddarfu'n wahanol, ond rwy'n llawn hyder bod Duw wedi galluogi ei bobl, er eu poen a'u galar a'u dicter, i ddal 'mai yr un yw ein Duw da ni.'

A chawsant gysur annisgwyl o fedd y pwll trwy dystiolaeth ryfeddol i'r Gristnogaeth rymus a fu'n cynnal rhai o'r bobl hyn. Canfuwyd o leiaf un nodyn ar ddarn o bapur, ag arno'r geiriau, 'Dywedwch wrth bawb, fe'u gwelaf yr ochr draw. Doedd o ddim yn ddrwg. Dim ond mynd i gysgu wnes i.' Roedd Martin Toler wedi sgriblo'r geiriau hyn ar ddarn o bapur cyn iddo farw. A thrwy'r nodyn dangosodd y Cristion hwn ei fod yn sefyll gyda'r Apostol Paul a soniodd ganrifoedd o'i flaen am 'y tri hyn'.

Gŵr y ffydd oedd Martin Toler. Credir iddo weld rhai o'i gydweithwyr yn marw o'i flaen. Ond yn wyneb angau ei hun, yn yr amgylchiadau mwyaf erchyll, doedd dim awgrym o golli ffydd: dim awgrym o gefnu ar y Duw yr oedd wedi credu ynddo.

Gŵr y gobaith oedd Martin Toler. Fedrai angau ddim diffodd y fflam yn ei galon. Roedd ei gred yn y nefoedd, a'r bywyd tragwyddol sydd ar gyfer pobl y Ffydd, yn aros. Yn yr awr olaf un roedd y gobaith Cristnogol yn ei gynnal, 'Fe'ch gwelaf yr ochr draw.'

A gŵr y cariad oedd Martin Toler. Yng ngwaelod y pwll oedd ar fin cipio popeth daearol oddi arno, meddyliai am eraill. Yn ei gariad at ei anwyliaid fe sgriblodd ei nodyn er mwyn eu cysuro ac er mwyn eu sicrhau nad gan y pwll na'r bedd y byddai'r gair olaf, ond gan yr Arglwydd ei hun.

Wrth weddio dros bawb sy'n galaru diolchwn bod 'ffydd gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros' o hyd.

JOHN PRITCHARD

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED Nos Iau, Ionawr 19eg, cynhaliwyd y Cinio Blynyddol. Mwynhaodd nifer o'r aelodau amser pleserus a phryd ardderchog yn Nhafarn Y Bont, Porthaethwy.

Ddydd Sadwrn, Chwefror 4ydd cynhelir Cyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched yn Ysgol Brynrefail, Llanrug am 2 o'r gloch. Eleni cangen Brynrefail fydd gwestai y cyfarfod.

PROFEDIGAETH Gyda gofid dwys y derbyniwyd y newydd syfrdanol nos Sul, Ionawr 8fed am ymadawiad y diweddar Alwyn a Shirley Roberts, 1 Minffordd yn 56 a 54 mlwydd oed yn dilyn trychineb angeuol yn eu cartref. Byddwn yn cofio amdanynt fel dau gymar triw i'w gilydd, gweithgar yn eu goruchwylion beunyddiol, yn ffyddlon a llawn edmygedd o'u dau fab a'u teuluoedd ym Mhenllyn ac am eu cyfraniad yn gymdeithasol yn y pentref.

Roedd y dyrfa luosog a ddaeth i Eglwys Llanddeiniolen fore Mercher Ionawr 18fed i'r gwasanaeth angladdol dan arweiniad y Parch Idris Thomas,Trefor, yn dystiolaeth wiw i'r ddau ohonynt.

Mae ein cydymdeimlad cywiraf â Neil a Rodney a'r teulu oll yn y brofedigaeth lem hon a ddaeth i'w rhan mor annisgwyl.

NOSON ARBENNIG

Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

DYMUNIADAU gorau am wellhad buan i Colin Wager, Tŷ Eryri yn dilyn damwain a gafodd yn ddiweddar a thorri ei goes.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

DATHLU GŴYL Y GENI Fore Sul, Rhagfyr 17eg cynhaliwyd yr oedfa flynyddol i ddathlu'r Nadolig. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mr Richard Wyn Evans a Dilys Wyn Morris. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Bertie Roberts. Yn dilyn cafwyd myfyrdod ar Adfent 2005 gan Norman a Lowri Williams. Gwerthfawrogwyd cyfraniad yr ieuenctid sef Rhian ac Anna George gyda'u cyflwyniadau o gerdd Gwyn Thomas 'Doethion a Bugeiliaid' a darn o ryddiaith 'Traddodiad y Plygain'. 'Carol Gŵr y llety' oedd yr unawd a gyflwynwyd gan Robert J. Williams gyda myfyrdod ar Mair, mam yr Iesu, gan Jennie Angharad Roberts yn dilyn. Cefndir y garol 'O deuwch ffyddloniaid' oedd cyfraniad Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones a'r Doethion oedd thema cyflwyniad Dafydd G. Ellis gyda 'Baled y Pedwar Brenin' i gloi. Canwyd nifer o garolau gan y gynulleidfa yn ystod yr oedfa. Emyr Williams ddaeth â'r gwasanaeth i ben gyda charol a'r Fendith.

PROFEDIGAETHAU Yn ystod yr oedfa Nos Sul, Ionawr 8fed, cydymdeimlwyd yn ddwys â Bertie Roberts a theulu Llwyncoed Bach yn eu profedigaeth o golli y ddiweddar Betty Owen yn 78 mlwydd oed ar Ionawr 4ydd.

Yna nos Sul, Ionawr 15fed estynnwyd cydymdeimlad â theuluoedd Penllyn yn eu profedigaeth chwerw o golli Alwyn a Shirley, gan gyfeirio at ffyddlondeb ac ymroddiad Shirley ym mhlentyndod Neil a Rodney fel arolygwr ac athrawes yn yr Ysgol Sul.

OEDFAON CHWEFROR 2006

5: Mrs Alwena Williams, Llanddona am 10.00

12: Parch Marcus Robinson, Bethel am 5.30 Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

19: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd am 10.00

26: Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 5.30

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

BLWYDDYN NEWYDD. Wel, dyma ni unwaith eto yn wynebu ar flwyddyn newydd. Dyn a ŵyr i ble yr aeth y flwyddyn ddiwethaf! Ga i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ichwi i gyd fel darllenwyr yr Eco, a hefyd wrth gwrs, ddymuno'n dda i Mrs Katie Lloyd Hughes sydd yn cartrefu yn Bron Eryri (Plas Garnedd) Llanberis ar hyn o bryd, ac hefyd Mr David J. Thomas sydd yn cartrefu yn Plas Pen Gwaith. Ein cofion a'n dymuniadau gorau ichwi yn 2006.

NOSON ARBENNIG

Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mr David John Thomas, Plas Pen Gwaith, ar golli ei fab, Lloyd. Yr oedd Lloyd wedi gadael yr ardal flynyddoedd yn ôl a chartrefu yn Lloegr. Gobeithio, Mr Thomas, y cewch nerth oddi uchod i ddal y golled fawr. Yr oedd Lloyd yn 63 oed a bu'r gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa yn Kettering. Yn meddwl llawer amdanoch yn eich profedigaeth.

**Atgofion annwyl iawn am ffrind plentyndod.**

A minnau wedi bod yn reit brysur yn ystod un penwythnos yn ysgrifennu cardiau Nadolig, ac yn eu rhoi yn y post y dydd Llun canlynol, y diwrnod wedyn daeth y newydd drrwg am farwolaeth Angharad Gwyn Williams. Yr oedd hyn yn andros o sioc a finnau y diwrnod cynt wedi anfon cerdyn iddi, ac yn gobeithio yn arw bod ei hiechyd yn weddol. Merch y Mans oedd Angharad, a'i thad oedd y diweddar Barchedig Ieuan Bryn Williams, Bron Myfyr. Colled fawr i ni yn yr ardal oedd iddynt ein gadael am Cyffylliog, Dyffryn Clwyd, yn y pumdegau cynnar. Ni fu Dinorwig yr un fath wedyn.

Yn ystod ei weinidogaeth, bu Angharad a minnau yn dipyn o ffrindiau. Yr oedd Mr Williams yn Weinidog i bawb – doedd dim ots pa enwad oeddynt. Byddai'n dod acw y peth cyntaf ar fore Llun neu y peth olaf ar nos Sadwrn. Yr oeddynt yn gymdogion da iawn i ni ac yn barod iawn eu cymwynas.

Cofiaf yn dda y Sadwrn y bu i Angharad a minnau basio'r pnawn yn chwarae yn llyn Ty'n 'Rardd. Y Sul canlynol yr oeddym ein dwy yn sâl a rhaid oedd i Angharad druan fynd i Ysbyty Gallt y Sil yng Nghaernarfon, ac yr oedd fy mraich chwith innau wedi chwyddo yn fawr. Canfyddwyd fod Angharad wedi cael polio ac fe gollais innau ddefnydd fy mawd ar fy llaw chwith. Bu i Angharad gael llawer iawn o driniaethau ond er hynny dioddefodd lawer ar hyd ei hoes.

Ym marwolaeth Angharad collais ffrind annwyl a ddioddefodd yn dawel er ei bod o dan anfantais fawr. Bu iddi farw yn dawel yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Yr ydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf â Bethan ac Iwan Prys, sef ei brawd a'i chwaer, yn eu profedigaeth fawr.

O golli Angharad mae'n dod â diwedd pennod i ben i mi. Diolch am gael ei hadnabod. 'Heddwch i'w Llwch' a diolch i Dduw am y caredigrwydd a'r gofal tyner a roddodd Bethan i'w chwaer ar hyd y blynyddoedd..


**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH TŶ**
(i arbed colled i chi);

**YSWIRIO EICH CAR**
(i arbed colled i chi ); neu

**YSWIRIO EICH BYWYD**
( i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**

**CDH**
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
**Ffôn: (01248) 355055**

**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

# Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto



## Yn Bwrw Glaw – Fel o Grwc

Cof gennyf, un bore heulog, yma yn Arfon rai blynyddoedd yn ôl, gyfarfod person a oedd yn gaeth i'w wely. Sôn am wybodaeth oedd ganddo ynghylch y byd mawr oddi allan. Galwaf ef yn E. Rhywfodd neu'i gilydd trodd ein sgwrs at adar, a dyma E yn mynegi ei awydd i gael gweld cawell bwyd adar wedi ei osod wrth ffenestr ei lofft. A dyna wnaed ac E yn cael modd i fyw yn cofnodi'n ddyddiol pa adar a ymwelai â'r ffynhonell fwyd.

Ar 29 Gorffennaf y llynedd, a minnau'n ddigon clud a diddig fy myd, dyma fynd ati tra'n sefyllian wrth ffenestr y gegin, i restru'r adar a ddaeth heibio acw rhwng 08.21 a 9.21. Ar y lleindir ger fy mhreswylfod, 'anialwch' yn ôl rhai mwy sylwgar na'i gilydd, gadawyd hadau a chnau i hongian wrth gyfle i ddiwallu ei hangen am fwyd! Nid arhosodd y *titw mawr* yr un tro i orffen bwyta. Yr hyn a wnaeth oedd hedfan oddi yno hefo dernyn o geneuen yn ei big. Pam mentro fel hyn, meddech? Ie, yn bendifaddau – y bwyd oedd yn denu'r adar yno a'r cyfle penigamp i greu ynni a chynheserwydd.

A fyddai'r adar a enwyd, o'u gwlychu, yn trymhau ac yn ei chael hi'n anodd i hedfan? Credaf fod y cŵyr ar eu plu o gymorth iddynt gan fod y dafnau glaw wedyn yn llithro oddi ar eu cyrff. Ni fyddent, o'r herwydd, yn gwlychu'n ormodol. Ynghanol y glaw cafwyd hefyd nifer o wahanol rywogaethau o adar yn cyd-fwyta, heb ffraeo nac ymladd, yr un gronyn! Hyn i gyd yn y glaw!

| *Yr adar a welwyd, a'u Nifer ( )* | *Nifer o weithiau yr ymwelwyd ( )* | *Prif ymborth* |
|---|---|---|
| *Aderyn y to* (33) | (10) | Hadau a chnau |
| *Ji binc* (06) | (06) | Hadau |
| *Llinos Werdd* (05) | (05) | Hadau a chnau |
| *Titw penddu* (02) | (02) | Cnau |
| *Titw tomos las* (04) | (04) | Cnau |
| *Titw mawr* (05) | (05) | Cnau |
| {55} | {32} | |

bolyn. Yn ystod yr awr y buwyd yn cadw cyfrif bu'n stwmpian bwrw glaw a tharannu.

Yn union am 8.35, ynghanol y glaw, ymwelodd naw *aderyn to* â'r cawell bwydo – cywion ac oedolion. Mi roedd y fenyw o deulu'r *jibincod* yn rhy ofnus i hedfan atom a dim ond y ceiliog ddaeth draw i chwilio am ei damaid! Dylid nodi na wnaeth teulu'r *mwyeilch* ddyfod ar gyfyl y polyn hongian hadau a chnau. Gwelwyd un *fwyalchen*, sef un fenyw, yn troedio'r ddaear wrth ymyl y man bwydo. Dicini fod y glaw trwm wedi peri i bryfed ddyfod i wyneb y ddaear, a'r *fwyalchen* yn gwneud yn fawr o'r

**Cystadleuaeth Byd Natur Mis Bach, y flwyddyn 2006**

Yn agored i bob oedran.

*** *Y mae gennych* **wythnos** *i gyflawni'r dasg isod. Cofiwch roddi eich cynigion, os gwelwch yn dda, ar gerdyn post, taflen o bapur, neu ddisg CD mewn amlen, hefo'ch enw, cyfeiriad yn llawn a.y.b., a'u hanfon at Ddafydd Guto, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, LLANRUG, Gwynedd LL55 3BB.*

Tair gwobr i'w hennill y tro hwn, a gobeithir cyhoeddi enwau'r enillwyr yn *Eco'r Wyddfa*, rhifyn mis Mawrth eleni.)




Sylwch yn ofalus ar y stampiau canlynol o wahanol wledydd. Mae yn eu plith aderyn, anifeiliaid, a 'sgodyn. Stampiau prydferth dros ben, a berthyn i wlad Pwyl, Tsiecoslofacia, a'r Hen Rwsia, ydynt.

Y tro hwn,
(a) enwch y pedwar gwrthrych a borteadir yn y stampia;
(b) enwch y gwrthrych sy'n destun edmygedd bardd o Gymro:

Rhyfeddais, sefais yn syn – i'w wylio
Rhwng yr helyg melyn,
Yna'r lliw yn croesi'r llyn, –
Oedais, ond ni ddaeth wedyn.

Bob hwyl!

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

## Dadlennu Tirlun Eryri

Mae'r olygfa o Benllyn Padarn ar draws y llyn tua'r Wyddfa yn un adnabyddus, sy'n cael ei mwynhau gan bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Nawr, bydd panel gwybodaeth newydd yn helpu pobl i ddatblygu gwerthfawrogiad dyfnach o'r ardal.

Mae'r artist o Sir y Fflint, Andrew Coomber, newydd gwblhau panel dehongli efydd ar gyfer y Cyngor Cefn Gwlad. Mae'r panel newydd yn dangos y tirlun mewn tri dimensiwn – gellir teimlo'r nodweddion yn ogystal â'u gweld.

Meddai Andrew Coomber, 'Roedd y Cyngor Cefn Gwlad isio darn o waith fyddai'n apelio at ymwelwyr o bob gallu corfforol a synhwyrol. Rwyf wedio tynnu lluniau a pheintio ers blynyddoedd ond roedd y syniad o greu gwaith fyddai'n galluogi pobl i gael teimlad o dirlun Eryri wedi tanio fy nychymyg. Rwyf wedi mwynhau creu'r panel efydd yn fawr.'

Yn ogystal â thynnu sylw at sawl nodwedd amlwg yn y tirlun, mae'r panel yn darlunio rhai o blanhigion nodedig yr Wyddfa – fel y tormaen porffor a lili'r Wyddfa – sy'n cael eu peryglu gan gynhesu byd-eang. Mae'r panel hefyd yn defnyddio barddoniaeth, wedi'i gomisiynu gan y beirdd Iwan Llwyd a Gillian Clarke.

Meddai Sian Shakespear, swyddog dehongli'r Cyngor, 'Roedd hwn yn brosiect newydd i'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd. Dyma'r panel efydd cyntaf i ni ei gomisiynu ac nid ydym wedi comisiynu barddoniaeth i ddehongli'r tirlun o'r blaen chwaith.'

Castiwyd y panel efydd gan Ffowndri Pensaernïol Leander, yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

# PENISARWAUN

**Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407**

**Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll.**
CROESO 2006. Eleni eto aeth criw hwyliog o'r pentref i Nant Gwrtheyrn i groesawu'r flwyddyn newydd. Braf oedd cael cymysgu â phobl ifanc y pentref ac â myfyrwyr y colegau. Roedd pob tŷ yn y Nant yn ferrw o Gymreictod. Bu'r cyfeillgarwch yn gynnes a'r gwledda a'r diddanwch yn fythgofiadwy. Ar hanner nos roedd yr Anthem yn atseinio drwy'r Nant oddi ar lawnt y plas.



PÊL BONWS Y LOTERI. Enillydd mis Rhagfyr oedd Janet Jones, 12 Bryn Tirion. Llongyfarchiadau a phob lwc i bawb yn 2006.

YSGOL SUL BOSRA. Bu'r plant yn cymryd rhan yn 'Sul y Teulu' bnawn Sul, 18 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch. Bedyddiwyd Guto Harri, mab bychan Rhian a Stephen yn ystod y gwasanaeth gan Mr Merfyn Jones. Diolchir i Mr Jones am annerch y plant ac am y cyfle unwaith yn rhagor i gyd-addoli fel 'Teulu'. Gwnaed casgliad o £51 tuag at Apêl y Capel. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth ac i Siôn Corn am alw i fewn i weld y plant. Diolch hefyd i Anti Bronwen am ofalu fod mins pei i fynd adref i bawb gyda'r baned ar ôl y gwasanaeth.
APÊL BOSRA. Cynhelir Disgo i blant Blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Gymuned Penisarwaun ac i blant Bl 7, 8 a 9 Ysgol Brynrefail yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 17 Chwefror am 6.30. Mynediad £1 yn cynnwys cŵn poeth a diod. Bydd melysion ar werth hefyd. Bydd yr elw at Gronfa Apêl y Capel.
GWELLHAD. Da deall fod Jean, Tai Croesion; Dafydd Roberts, 10 Bryn Tirion, a Selwyn Griffith, 6 Bryn Eglwys, yn gwella wdi eu triniaethau yn yr ysbyty. Gobeithio fod pawb arall mewn iechyd da.
DIOLCH. Dymuna Jean, Tai Croesion, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref yn dilyn ei llawdriniaeth.
PROFEDIGAETH. Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf at Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt ac at Helen a Nia, y ddwy ferch, a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr, tad, brawd a brawd-yng-nghyfraith annwyl dros ben.
Ein cydymdeimlad llwyraf hefyd â Mr Robert Turner, Tyddyn Difyr, ar ei brofedigaeth o golli ei ferch, Rhiannon, llys-ferch annwyl i Julia.
PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd: Elen Lewis, Penpwllcoch; Phyllis Ellis, Rhosfawr; Sioned Griffith, Tai Arthur.
Atgoffir chwi'n garedig ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth, 50c y mis, £6 y flwyddyn, neu os dymunir drwy Archeb Banc. Croeso cynnes i aelodau newydd.
Cynhaliwyd Noson Wasael lwyddiannus a chyfeillgar iawn ychydig cyn y Ndolig. Diolchir i blant yr ysgol am eu cyfraniadau clodwiw ac i Lois Eifion am gyfeilio iddynt. Diolch o galon i John Eifion am ei gyfraniad hudolus ac i Marina, Lois, Anest ac Eifion am y pedwarawd soniarus. Gyda Marina yn cyfeilio cafwyd cyfle i ganu nifer o'r hen garolau ac yna blasu pwnsh poeth a mins pei. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson.
Y gweithgaredd nesaf yw 'Calendr 2006' pryd y bydd cyfle i brynu ambell 'ddiwrnod' am £1 yr un. Hyderir gwerthu'r 365 niwrnod, a bydd gwobr o £50 i'r 'Diwrnod Lwcus'.
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 30 Ionawr am 7.00 o'r gloch.
NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.
I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.
YR YSGOL GYMUNED
*Cyngerdd Nadolig.* Diolch i bawb a ddaeth i'r cyngerdd bnawn dydd Merched a nos Iau, 7 ac 8 Rhagfyr, ac am y casgliad a wnaethpwyd yn ystod y cyngerdd. Diolch hefyd i swyddogion Eglwys Santes Helen am ganiatáu i ni gynnal y cyngerdd yno eleni.
*Ffair Nadolig.* Cynhaliwyd y ffair nos Fercher, 14 Rhagfyr. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi a sicrhau elw o £385 i gronfa Cyfeillion yr Ysgol. Roedd ymweliad gan Siôn Corn yn dderbyniol iawn gan y plant. Diolch yn fawr iddo am alw draw.
*Ymweliad â Chartref yr Henoed.* Aeth plant dosbarth 5 a 6 draw i Gartref Henoed Penisarwaun bnawn dydd Mercher, 14 Rhagfyr, i ddiddori'r preswylwyr. Diolch i Mr a Mrs Paul a staff y Cartref am eu croeso fel arfer.
*Noson Wasael.* Bu nifer o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y Noson Wasael nos Iau, 15 Rhagfyr, trwy ganu gwahanol garolau i'r gynulleidfa.
*Myfyrwyr.* Diolch i Miss Joanne Davies am ei gwaith caled yn yr ysgol yn ystod yr hanner tymor diwethaf, a chroeso i Mr Marc Evans a Miss Ceri Roberts i'n plith yr hanner tymor hwn. Mae'r ddau wedi setlo i lawr yn sydyn iawn.
*RSPCA.* Mae Claire Donnelly o Flwyddyn 5 wedi ysgrifennu erthygl sydd wedi ei chyhoeddi mewn pamffled gan yr RSPCA. Mae'n bosibl ei brynu yn yr ysgol am 50c gyda'r elw yn mynd i'r achos yma.
*Clwb Bysedd Bach Gwyrdd.* Mae Mrs Rachel Thorpe yn mynychu'r ysgol ar ddydd Mawrth i wneud gweithgareddau gyda'r plant. Diolch iddi am wirfoddoli i wneud y gwaith yma. Mae'r plant yn mwynhau.
*Ymweliad.* Bydd aelod o'r Heddlu yn ymweld â'r ysgol ar 27 Ionawr i roi sgwrs i'r plant.

# Mynd am Dro – Does Dim Byd Gwell

Yn ôl arolwg diweddar, nid yw 70% ohonom yng Nghymru yn gwneud digon o ymarfer corff, ac er bod llawer ohonom wedi bod am dro dros y Nadolig, dim ond y rheiny sy'n parhau i ymarfer am tua hanner awr 5-diwrnod-yr-wythnos fydd yn cael y manteision iechyd a argymhellir. Yn ôl yr arbenigwyr, mae ymarfer corff rheolaidd nid yn unig yn lleihau'r risg o gael afiechydon difrifol, fel clefyd y galon a chanser y coluddyn, gall hefyd fod yn help mawr i leihau poendod meddwl.

**Cefn Gwlad – Ble i fynd?**
Gyda thua 22% o gefn gwlad Cymru ar agor i'r cyhoedd, mae'r cyfleoedd i fwynhau ein treftadaeth naturiol yn fwy nag y bu erstalwm iawn. Fel arfer, mae llwybrau cyhoeddus yn adnodd lleol pwysig, ond ers Mai 2005 mae gan y cyhoedd hawl hefyd i gerdded ar ardaloedd eang o fynyddoedd agored a rhostiroedd.

**Llwybrau Cenedlaethol**
Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn rhoi cyfle i'r cerddwr archwilio gororau Cymru o un o henebion archeolegol pwysicaf Ewrop. Twmpath anferth o bridd a cherrig o'r 8fed ganrif yw Clawdd Offa, sy'n ffurfio'r hen ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae Llwybr Glyndŵr (Powys) a Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro hefyd yn rhoi cyfle i'r cerddwr weld rhai o olygfeydd mwyaf trawiadol Cymru.

**Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol**
Mae gan Gymru 66 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, a ddewiswyd oherwydd eu bywyd gwyllt arbennig a'u harddwch naturiol eithriadol. Tra bod Cadair Idris a Chwm Idwal yn Eryri yn cynnig golygfeydd mynyddig dramatig a thirweddau isaol i'r cerddwr mynydd, mae twyni tywod Oxwich a chlogwyni calchfaen Arfordir Gŵyr yn cynnig cyfoeth o gynefinoedd bywyd gwyllt i gerddwyr, yn ogystal â rhai o'r golygfeydd arfordirol harddaf yn Ewrop.

**Mentrau Cerdded**
Oherwydd y manteision sylweddol a ddaw i'r iechyd yn sgil cerdded, mae'r Cyngor Cefn Gwlad, ynghyd â Sefydliad Prydeinig y Galon – gydag arian ychwanegol gan y Gronfa Loteri Fawr – wedi cychwyn cynllun i annog pobl segur i gerdded mwy. Mae 'Cerdded Llwybr Iechyd' wedi sefydlu nifer o brosiectau cerdded o dan arweiniad y gymuned mewn ardaloedd yng Nghymru lle mae iechyd y trigolion yn wael, ac mae tua 40,000 o bobl eisoes wedi elwa ar y cyfle i fynd allan a mwynhau eu hamgylcheddau lleol.

* * *

Am fwy o wybodaeth am y prosiectau uchod ffoniwch y Cyngor Cefn Gwlad ar 0845 130 6229, neu ewch i'r safle we: www.ccw.gov.uk

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

CANGEN ELUSENNOL LLANBERIS. Yn ystod y flwyddyn 2005 bu'r gangen yn trefnu Boreau Coffi yn gyson ar y dydd Gwener cyntaf o bob mis. Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £919.50 a rhannwyd y swm er budd achosion da i fudiadau ac unigolion. Y mae Mattie a Delyth Hughes (y Trefnyddion) yn ddiolchgar i'r ffyddloniaid arferol am bob cefnogaeth.

Diolch yn arbennig i Danny a Nerys Roberts am gael defnyddio y Bistro i gynnal y cyfarfodydd, ac am eu caredigrwydd a'u croeso bob amser.

Edrychwn ymlaen am flwyddyn lwyddiannus eto eleni, fel y gellir bod o gymorth i rai llai ffodus na ni.

Mattie a Delyth Hughes



CANMLWYDDIANT Ar 13 Ionawr roedd Elisabeth Ellen Jones yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ac, fel sy'n draddodiadol, derbyniodd gerdyn llongyfarchiadau oddi wrth Elizabeth arall – y frenhines.

Ganwyd hi (Elisabeth Pentre Castell, i'w ffrindiau) yn Pentre Castell a bu'n byw yno tan ei bod yn 16 mlwydd oed.

Rhwng 1921 a 1965 bu'n gweithio a magu teulu yn Wigan, cyn dychwelyd i'w chynefin ac ailafael yn ei chysylltiadau lleol a'i hen gapel, Jerusalem.

Mae ganddi dair merch, gyda Catrin wedi priodi hefo bachgen o Lanberis, Kenneth Roberts, 5 o wyrion a 5 gor-wyr.

Ar ddydd Iau, 22 Rhagfyr, cynhaliwyd parti yn y cartref yn Pentre Castell i ddathlu'r achlysur arbennig, gyda theulu, aelodau'r capel a llu o ffrindiau'n bresennol.

Dymuna Elisabeth a'i theulu ddiolch am yr holl gardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Meira Pitts o 14 Cae Sarn, Groeslon, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn cynnwys, cardiau, ymwelwyr a'r galwadau ffôn yn yr amser trist hwn. Diolch i'r doctoriaid a'r staff ar ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, am y gofal a gafodd Meira dros y saith mlynedd diwethaf. Hefyd i'r Adran ITU yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, am y parch a'r gofal yn ystod ei thriniaeth yno. Diolch i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am ei wasanaeth gwych ac i'r Parchedig John Pritchard. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ac Adran ITU, Ysbyty Maelor.

MARWOLAETH. Bu farw Mary Ellen Pritchard o Namor, Stryd Siarlot yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 18 Rhagfyr 2005 yn 97 mlwydd oed, ar ôl gofal tyner a diflino Aylwyn, ei mab.

Ganwyd hi yn Y Ffôr yn 1908 gan symud i fyw i Nantmor, ar ôl gadael yr ysgol, i weini i fferm Cwm Caeth. Bu'n ffodus o gael dwy briodas hapus iawn, y gyntaf gyda William Jones Hughes o Cwm Caeth, bu farw William yn 1948 yn 59 mlwydd oed a'i gadael yn weddw gyda phedwar o blant, Arthur, Aylwyn, Hugh a Nerys.

Yna, yn 1950, fe briododd gyda Thomas Pritchard, Fferm Ceunant, Nant Peris. Bu yntau farw yn 1974 yn 83 mlwydd oed. Fe weithiodd yn galed drwy gydol ei hamser ar y ddwy fferm. Yn 1977 symudodd o'r Nant gyda'i mab, Alwyn, i fyw i Stryd Siarlot lle bu yn ddedwydd iawn gyda chymdogion a chyfeillion tu hwnt o ffeind. Roedd yn berson hyfryd ac arbennig iawn a bydd colled ar ei hôl.

Cynhaliwyd yr angladd dydd Gwener, 23 Rhagfyr. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Pritchard mewn gwasanaeth i'r teulu ar yr aelwyd ac yna ar lan y bedd, lle y rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Beddgelert. Yr arch-gludwyr oedd William Alun Hughes, John Aneurin Hughes, Arwyn Jones Hughes a Gary Owen. Y prif alarwyr oedd Arthur a Madge; Aylwyn a Pat; Hugh; Nerys a Derek (ei phlant a'u partneriaid); William Alun a Gillian; Mair a Peter; Elen, Dewi ac Elinor; John, Aneurin a Becky; Bethan, Derek Hayley a Siona; Menai, Mel, Iwan a Hywel; Eirian a Pete; Carys a Mark; Arwyn; Elin, Gary a Rhys (ei wyrion, wyresau a'u teuluoedd). Ynghyd â nifer o berthnasau a ffrindiau eraill. Oherwydd amgylchiadau anorfod methodd Eira a Mark; Ian, a theulu Ffatri, Y Ffôr fod yn bresennol.

Rhoddwyd blodau gan Aylwyn a Pat; Arthur, Madge a'r teulu; Hugh; Nerys a Derek; Elin, Gary a Rhys; Menai, Mel, Iwan a Hywel; Ian, Wendy, Amy a Sera; Eirian, Pete, Vicky a Daniel; Carys, Mark, Hugh Sioned a Tomos; Arwyn; Eirlys, Alwena a Hefina; Twm Hanks; Delyth a Ffion.

Trefnwyd yr angladd yn drylwyr gan Mr Gwynfor Jones, o E.W. Pritchard, Llanberis.

Dymuna'r teulu ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl. Diolch am y rhoddion hael o £500 er cof tuag at Feddygfa Waunfawr. Diolch o galon i Pat ac i'r gofalwyr, yn arbennig Delyth a Ffion, am y cariad a'r gofal a gafodd ganddynt. Diolch hefyd i'r cymdogion cymwynasgar ac i Hannah bach. Diolch i bawb oedd yn bresennol yn yr angladd ac i Alun a Gillian am ddarparu lluniaeth ar y diwrnod. Diolch i Feddygfa Waunfawr am eu gofal rhagorol ac i Huw y Fferyllydd am ei garedigrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Diolch i'r Parchedig John Prithcard am ei wasanaeth a'i eiriau o gysur i ni fel teulu a diolch yn fawr iawn i Mr Gwynfor Jones am y trefniadau dwys ac effeithiol.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Noson o Garolau a Darlleniadau a gawsom yn festri Capel Coch am 7 o'r gloch nos Iau, 8 Rhagfyr. Roedd y noson yng nghwmni Côr Lleisiau Lliwedd. Arweinydd: Gareth Jones; Cyfeilydd: Marcia Thomas. Cafwyd paned, mins pei a bara brith ar ddechrau'r cyfarfod.

Diolch i bawb a fu'n paratoi ar gyfer llwyddiant y noson. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am y diolchiadau a'r Fendith. Gwnaed casgliad o £62 ar y noson a chyfranwyd £50 o gronfa Côr Lleisiau Lliwedd i wneud cyfanswm o £112. Rhoddwyd yr arian at waith 'Byddin yr Iachawdwriaeth' at ddarparu llety a bwyd i bobl ddigartref dros gyfnod y Nadolig.

Nos Fawrth, 3 Ionawr, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn dan nawdd y Gymdeithas. Roedd y noson yng ngofal y Parchedig John Pritchard, oedd wedi darparu gweddïau ar gyfer y gynulleidfa gyfan i'w darllen a diolch iddo am naws arbennig. Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs Eryl Jones, Mrs Mattie Hughes a Mr Derec Jones. Yr organydd oedd Mr Gareth Jones. Diolch iddynt hwythau am eu cyfraniadau gwerthfawr.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 7 Chwefror am 7 o'r gloch yn festri Capoel Coch. Edrychwn ymlaen at gael sgwrs gan Mr Ken Jones, Blaen-y-Ddôl, Llanberis. Croeso i chwi i gyd.

DYMUNA Iwan Wyn Williams ddiolch o galon i gyfeillion Ras yr Wyddfa am y cyfle gafodd o i fynd efo nhw ar daith fythgofiadwy i Morbegno fis Hydref. Yno cafodd y fraint o chwarae'r organ mewn dwy o eglwysi'r dref yn ystod gwasanaethau'r penwythnos. Roedd yn brofiad gwych iddo a chafodd amser wrth ei fodd. Diolch am y gofal a'r hwyl. Mae eisoes yn cymryd rhan yng ngwasanaethau Egwys St Padarn a hoffai ddiolch i aelodau'r Eglwys am eu cefnogaeth.

Hefyd, pob lwc i'r chwaer, Caryl, sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor. Mae wedi ei derbyn i fynd i America i wneud rhan o'i gradd. Pob lwc i'r ddau.

NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

EGLWYS ST PADARN. Ar 18 Rhagfyr cafwyd gwasaneth arbennig yn yr eglwys. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchedig Ganon Geraint Meirion Jones ac i ddilyn perfformiwyd 'Dathlu'r Nadolig yn rhai o wledydd y byd' gan blant yr Ysgol Sul, gan ddiweddu drwy ganu carolau o gwmpas y preseb. Llongyfarchwyd pawb a gymerodd ran gan gynulleidfa deilwng iawn. I orffen y gweithgareddau cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu a'i roi gan Mrs Anne Williams. Diolchwn iddi am ei haelioni.

Yr wythnos ar ôl y Nadolig cafodd y plant barti Nadolig gyda anrhegion wedi eu gadael yn Nhŷ St Padarn gan Siôn Corn. Drwy garedigrwydd aelodau o'r gynulleidfa a'r rhieni cafwyd gwledd ardderchog gyda digon o hwyl a sbri. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

## CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**Cofnodion Rhagfyr 2005**
Cofnodion cyfarfod nos Iau, 19 Ionawr, 2006.

**Cyflwyniadau:**
a) Bryn Williams, Peiriannydd, Cwmni First Hydro, Llanberis
Cafwyd cyflwyniad ynglŷn â bwriad First Hydro i godi lefel yr argae ym Marchlyn er mwyn dal rhagor o ddŵr i ganiatáu i'r cwmni gynhyrchu trydan am gyfnod hwy. Cafwyd sicrhad na fyddai'r gwaith yn golygu perygl o lifogydd.

b) Haydn E. Hughes, Cyfadran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd
Cafwyd cyflwyniad yn sôn am gymorthdaliadau sydd ar gael gan Gyngor Gwynedd ar gyfer gwneud gwaith mewn perthynas â byd natur a'r amgylchedd.

**Presennol**
*Ward Padarn:* Gavin Alsup, Emlyn Baylis, Elwyn Davies, Derek Jones, Ken Jones, Fred Owen, Olwen Gwilym (Cadeirydd), Trystan Thomas
*Ward Peris:* Iola Owen, Gwenda Roberts.

**Ymddiheuriadau**
Helen Sharp

**Cadarnhau Cofnodion**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau, Rhagfyr 15fed 2005, fel rhai cywir.
Cynnig ac eilio: DJ/FO

**Datgan Buddiant**
Mynegodd sawl Cynghorydd y byddent yn gwneud datganiad buddiant wrth ystyried ceisiadau am gymorth o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
* *Strydoedd Henry a Turner:*
Dywedodd TT ei fod wedi holi beth oedd y farn leol am atal trafnidiaeth rhag mynd yn ôl a blaen ar y strydoedd yma. Yn fras, roedd cytundeb â bwriad CG, er y byddai'n golygu mwy o drafnidiaeth ar waelod Stryd Goodman yn Rhes y Cae (Field Terrace). Awgrymwyd y dylid cael gwrymiau ar y ffordd i dawelu trafnidiaeth ger y Cae Swings, a chyfyngu y fynedfa i Stryd Turner i sicrhau na fyddai pobl wrth fynd i'r Banc yn ceisio parcio yno.

* *Trydan Nadolig:*
Dywedwyd fod bwriad gan Bartneriaeth Llanberis i geisio goleuo'r pentref y Nadolig nesa, daeth cais am gymorth i law.

* *Goriad Gwyrdd:*
Cafwyd adroddiad fod y Clerc wedi cyfarfod Huw Percy, Swyddog

'Goriad Gwyrdd', i drafod nifer o faterion yn cynnwys cysgodfannau bws yn y Nant a Llanberis, yn ogystal â chysgodfan yn Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn Nantperis. Cytunwyd fod y cysgodfannau i'w codi o flaen Maes Padarn ac yn y Nant, ac mai dyluniad syml, yn hytrach nag un uchelgeisiol, fyddai orau o ran tywydd a fandaliaeth yn y Maes Parcio. Treuliwyd amser hefyd yn edrych ar linell bosib Llwybr y Nant. Adroddodd y Clerc ei fod wedi rhoi gwybod i'r tirfeddiannwyr fod gobaith am lwybr yn y dyfodol agos.

**Gohebiaeth**

* *Heddlu Gogledd Cymru (HGC):*
Derbyniwyd llythyrau oddi wrth HGC ac Alun Ffred Jones AC yn diolch am lythyr y Cyngor yn gwrthwynebu bwriad yr Ysgrifennydd Cartref i uno heddluoedd.

* *Cyngor Gwynedd:*
Llythyr ym ymwneud â nifer o faterion trafnidiaeth a godwyd gan y Cyngor. Adroddwyd fod y cwch a barciwyd ar y ffordd fawr o flaen Rhesdai Glanrafon, Nantperis, wedi ei symud ac fod arwydd 'Dim Ffordd Drwodd' ger tai Nant Ffynnon, Nantperis wedi ei ailgodi. Nodwyd fod materion eraill i gael sylw yn y dyfodol agos.

* *APCE:*
Llythyr yn nodi y bydd cyfle yn y dyfodol i annerch Pwyllgor Cynllunio yr Awdurdod, ac fod taflen wybodaeth yn cael ei pharatoi. Byddai'r drefn newydd yn caniatáu 3 munud i annerch yr aelodau ar fater yn ymwneud â chais cynllunio penodol.

* *Cyngor Gwynedd:*
Llythyr yn nodi'r bwriad i gau Stryd Bethesda, Llanberis am gyfnod er mwyn i gwmni BT osod dwythell yn y ffordd.

**Cronfa Cymorthdaliadau Bychan:**
Penderfynwyd cynnig cymorth eleni i'r canlynol:
Eglwys Sant Peris, Nantperis; Eglwys Sant Padarn, Llanberis; Partneriaeth aaLlanberis Goleuadau Nadolig; Clwb Pêl-droed Llanberis; Clwb Llanberis Colts FC; Ras yr Wyddfa; Cylch Meithrin Llanberis a Nantperis; Brownies a Rainbows, Llanberis; Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis; Eco'r Wyddfa; Cwmni Rygarug; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Sir Ddinbych; Eisteddfod Genedlaethol Cymru – Abertawe; Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen; Cais – Cyffuriau ac Alcohol; Gwasanaeth Gwirfoddol y Merched – WRVS; NW Assoc for Spina Bifida and Hydrocephalus; Guide Dogs; Bobath – Canolfan Therapi Plant Cymru; Macmillan Cancer Relief; Cwmni Theatr y Fran Wen, ; Cwmni Theatr Bara Caws; Radio Ysbyty Gwynedd; Y Samariaid – Cangen Gogledd Orllewin Cymru.
Roedd unfrydiaeth barn ar y symiau a gynigiwyd.
Mynegwyd diddordeb fel â ganlyn:
Eglwys St Peris: IO, GR;
Eglwys St Padarn: DJ, FO, KJ; Pêl-droed: IO, DJ;
Ras yr Wyddfa : KJ;
Cylch Meithrin: TT.

**Unrhyw Fater Arall**

• *Siop Spar, Talafon*
Yn gysylltiedig â symud siop 'Spar' i Dalafon, Stryd Fawr, Llanberis mae'r cwmni wedi gofyn am estyniad i'r oriau gwerthu diodydd alcohol a bwydydd poeth. Dymuniad y cwmni ydi agor i werthu o 7 y bore hyd hanner nos, cyfanswm o 17 o oriau. Penderfynwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r cais am nifer o resymau, yn eu plith twrw, trafnidiaeth, pobl ifanc yn casglu o flaen y siop, agosrwydd tai a sefydliadau llety a gwely a brecwast, a gofynnwyd i'r Clerc anfon gair at yr Awdurdod Trwyddedu i nodi gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned.

• *Llwybr Tŷ Du:*
Cafwyd cynnig i uwchraddio'r llwybr yma er mwyn ychwanegu at gylchdaith yr ochr ucha i'r pentref. Awgrymwyd cael amcan bris o'r gost.

• *Grid Gwartheg:*
Cafwyd ar ddeall fod grid gwartheg o'r Mynydd Gwefru ar gael, ac awgrymwyd fod y Clerc yn anfon gair at CG i ofyn a ellid ei osod ger Llwyn Celyn i atal defaid rhag crwydro i'r pentref.


• *Helfa Fawr:*
Adroddwyd fod y llwybr yn cael ei falu wrth i'r gwaith ddechrau ar ailadeiladu'r tŷ. Cafwyd cynnig fod llythyr yn cael ei anfon at Gyngor y Parciau Cenedlaethol ynglŷn â'r caniatâd yma.

• *Cynghorydd Sir:*
Wedi trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Trefor Edwards fynychu'r cyfarfod nesaf.

**Cyfarfod Nesaf**
Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau yr 16eg o Chwefror 2006.

# YSGOL DOLBADARN

Bu cyfnod cyn y Nadolig yn un prysur iawn. Cynhaliwyd sioeau cerdd a ffair Nadolig cyn yr ŵyl. Cafodd y disgyblion fwynhad o'r profiad a chafwyd ymateb da. Diolch i'r rhieni, busnesau lleol a'r holl gyfranwyr am eu cyfraniadau hael. Bu'r holl ddisgyblion a'r staff yn ymweld â phantomeim yn Theatr Gwynedd a chafwyd bore penigamp o adloniant. Bu cynnwrf mawr yn yr ysgol hefyd pan ddaeth Siôn Corn i sgwrsio a



Cinio Nadolig blasus Dolbadarn

rhannu anrhegion i blant Dolbadarn. Diolch i Anti Linda a staff y gegin i gyd am baratoi cinio Nadolig bendigedig i'r disgyblion a'r staff. Erbyn hyn mae pawb wedi cychwyn ar eu diet!

Ers peth amser bellach mae'r ysgol wedi bod yn rhan o gynllun Cyngor Sir Gwynedd i ailgylchu papur. Penderfynodd Cyngor yr Ysgol gymryd rhan yng nghynllun ailgylchu cardiau Nadolig a daeth y plant â hen gardiau i'r ysgol yn ystod mis Ionawr. Bu'r fenter yn llwyddiant a chafwyd cyfraniad sylweddol gan bob dosbarth.

Hoffem roi croeso i Mrs Gwawr Britton i'r ysgol. Bydd yn gofalu am ddosbarth Mrs Delyth Roberts, sydd eisoes wedi cychwyn ar ei chyfnod o absenoldeb mamolaeth. Mae Mrs Britton wedi bod gyda ni yn y gorffennol ac estynwn groeso iddi'n ôl.

Bu plant blwyddyn 5 yn cystadlu mewn cwis llyfrau a bu Huw, Kim, Kate ac Elin a'u pennau mewn llyfrau yn ystod y mis. Diolch i'r pedwar am gynrychioli'r ysgol unawith eto a hynny mor llwyddiannus.



Corachod prysur o sioe'r babanod



Siôn Corn y meithrin yn cyrraedd yn ei gar!



Rhai o'r cymeriadau o sioe'r adran iau

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Rhagfyr oedd:
£40: (54) Peris Thomas, 4 Bryn y Gof; £25: (20) Ifor Hughes, Lleifior; £15: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos; £5 (93) Rosie Lloyd, 2 Rhosbach.
Enillwyr mis Ionawr oedd:
£40: (56) Alan Griffiths, 6 Tai Glangwna; £25: (40) Arwel Griffiths, 5 Tai Glangwna; £15: (4) M.W. Griffiths, Rhyddallt; £5: (55) Wendy Thomas, 4 Bryn y Gof.
Enillwyr cystadleuaeth y bêl bonws ar gyfer y Nadolig ac yn cael £10 yr un oedd: (7) Margaret Hensworth; (101) Dewi Parry; (3) Gwenno Bebb; (54) Peris Thomas; (96) Norma Evans; (4) Mike Williams; (31) Bryn Griffiths; (103) Edwina Hughes; (83) Mark Williams; (66) G. Hughes.
Diolch i haelioni hapchwaraewyr cyson y Tynfa Misol roedd y Pwyllgor yn medru cyllido codi a goleuo'r Goeden Nadolig a threfnu'r Band a'r canu Carolau, trefnu i Siôn Corn ymweld â pharti'r plant iau, rhoi anrheg i'r plant hŷn a chyfrannu ychydig at hapusrwydd Nadolig pensiynwyr y fro. Diolch yn fawr i chi oll a Blwyddyn Newydd Dda.
CYSTADLEUAETH LLIWIO. Yn ystod Parti Dolig y plant iau cynhaliwyd cystadleuaeth lliwio rhwng eu gwledd ac ymweliad Siôn Corn. Enillydd y plant meithrin oedd Ceris Lloyd; Pwy oedd enillydd y plant iau meddech chi ond Katie, ei chwaer. Llongyfarchiadau i deulu Tyddyn Cae!
LLYWYDD. Llongyfarchiadau i Vernon Jones, Llain Meddygon, ar ei etholiad yn Llywydd Cymdeithas Defaid Llŷn wedi oes o fridio a bod yn aelod o'r pwyllgor am chwarter canrif.
BABAN NADOLIG.
Llongyfarchiadau i Karen a Seimon Element, Plas Uchaf, Glan Gwna ar enedigaeth mab, Max Reuben, ar noswyl Nadolig, brawd i Steffan.
90 OED. Llongyfarchiadau i John Evans, Rhanna, Stad Glandŵr ar ei ben-blwydd yn 90 oed ym mis Rhagfyr. Erbyn hyn mae dau o'r saith tŷ ar y stad yn cynnwys rhwyn sy dros 90 mlwydd oed!
GWASANAETHAU'R CAPEL.
Disgwylir y canlynol yn ystod mis Chwefror:
5: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Trefor Jones
12: 11.00 Ysgol Sul
19: 10.00 Parch Reuben Roberts
26: Dim oedfa
Croeso i bawb.
NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.
I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.
APÊL AMBIWLANS AWYR. Diwedd mis Ionawr yw'r dyddiad cau ar gyfer rhoddion ar yr 'Ambiwlans Awyr' a drefnwyd gan Haf Thomas, Llanrug. Gofynnir i drigolion gyflwyno eu casgliadau preifat trwy swyddogion y Capel. Bydd casgliad y Canu Carolau a Gwasanaeth Nadolig y Capel hefyd yn cael eu hychwanegu at gasgliad Caeathro a'r Cylch.

## NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

**Gwynedd Roberts**

Ar y 16eg o Ragfyr, 2005, fe fu farw Gwynedd Roberts, Ystrad, yn 62 mlwydd oed. Yn ei angladd ar y 22ain o Ragfyr, fe dalwyd teyrnged iddo gan ei ffrind, Dei Tomos, teyrnged sy'n taro deuddeg ac sy'n llawn haeddu ei chyhoeddi isod – er cof am gymeriad oedd yn annwyl inni i gyd.

* * *

'Tydi'r hen bentra bach yma ddim fel y buo fo, mae 'na newid wedi bod, a hynny oherwydd marwolaeth cymamserol cyfaill a chydnabod caredig a chellweirus: Gwynedd.

Dewch i mi oedi am eiliad efo'r geiriau yna, cyfaill a cydnabod. Cydnabod oedd o i lawer, dyn oedd yn cerdded y ffordd, falla rywle rhwng pont Stamps a'r pentra, neu hwyrach wedi parcio yn y 'le-bei' wrth Adwy Ffordd Haearn ac wedi mynd am dro i'r Allt. Roedd o'n ffond o'r hen gwm yma a'r pentra, yn falch o'r Nant, ac yn mwynhau byw yma. Roedd o wedi bod yma ar hyd ei oes, a hynny o ddewis. Roedd o hefyd wrth ei fodd yn mynd am dro, ac wrth gwrs roedd 'na reswm dros grwydro, roedd ganddo fo gi – fe fu adeg pan oedd ganddo ddau. 'Titch', oedd un, ac yna fe ddaeth Pero. Does wybod o ble daeth hwnnw ond mae un peth yn sicr, pa greulondeb bynnag ddigwyddodd iddo fo yn y gorffennol, chafodd yr un ci well mistar na chartra ar ôl iddo fo gael hyd i Gwynedd. Wrth ddod i'r Ystrad fe newidiodd bywyd yr hen gi.

Roedd o'n gyfaill i gŵn ac anifeiliaid a doedd dim fyddai'n gwylltio Gwynedd yn fwy na gweld neu glywed am anifail yn cael ei gamdrin. Roedd ganddo fo ddiddordeb byw yn y byd o'i gwmpas, ac o daro ar ein gilydd fydda fo fawr o dro cyn y bydda fo'n sôn ei fod o wedi gweld neu glywed rhywbeth anghyffredin, pysgod yn yr afon, adar ar y torlannau neu ar hyd y gweirgloddiau 'ma. Roedd clywed y gog yn bwysig, ac fe fyddai bron yn ddieithriad yn cael y blaen arna i bob blwyddyn, neu fe ddoi heibio a'i wynt yn ei ddwrn i ddweud fod 'tinwen y garn' neu 'bibydd y dorlan' wedi cyrraedd o bellafoedd daear i nythu yma.

Rydw i eisoes wedi cyfeirio at garedigrwydd Gwynedd tuag at greadur direswm, ond roedd o'n garedig fel arall hefyd, at gyfeillion a chydnabod ac at deulu. Ddwy flynedd yn ôl fe fu farw Brenda, ei wraig, wedi cystudd hir a blin. 'Does neb a ŵyr yn iawn faint wnaeth Gwynedd iddi hi, (ac i'w fam) fe fu'n ŵr caredig a chymwynasgar tu hwnt, yn enwedig yn ystod ei salwch hir. Fe fu'n deyrngar a ffyddlon hyd at y diwedd un, ac er bod rhyw elfen 'ffwrdd â hi' yn perthyn iddo fo ar adegau, fe wyddai y rhai oedd yn ei adnabod yn iawn faint o golled gafodd o, a faint a deimlodd o hefyd wrth golli ei wraig er iddo fo wneud ymdrech i guddio hynny.

Heb ei fai heb ei eni, medda'r hen air, ac mae hynny yn wir amdanom i gyd, ac os oedd gan Gwynedd fai, wel ei fai oedd ei fod o'n gellweirus a phryfoclyd, yn eithriadol felly ar adegau. Roedd tynnu coes a herian yn rhan o'i natur, a'r gwaetha ydi nad oeddach chi ddim bob amser yn siŵr a oedd o'n herian, oedd o'n tynnu coes, ynte oedd o ddifri! Yn ogystal roedd o'n medru bod yn blaen ei dafod, ac fe ddywedai'n blwmp ac yn blaen wrthach chi beth oedd o'n ei feddwl, ac yn ei feddwl ohonach chi hefyd. Roedd tact weithia yn beth pell a phrin a doedd ganddo fo ddim llawer o amser i ffyliaid, ac o gofio hynny fe fedrach chi ei gamddeall o ar adegau. Fe wylltiais i efo fo ar fwy nag un achlysur, yn enwedig pan oedd o'n gwneud lol. Ond roedd o'n fet ac yn gyfaill... a mae rhywun yn maddau llawer i'w fets am wneud lol.

Fel y gŵyr y rhai a'i adnabu, roedd codi tŷ yn Llanberis yn freuddwyd iddo fo a Brenda, ac mi fydda'n sôn fel yr oedd o'n bwriadu cadw fisitors, tydwi'n dal ddim yn siŵr oedd o wir yn meddwl hynny o ddifri; (er bod y tŷ yn Gelli Hir Bant ddigon mawr i wneud anecs i Westy Fictoria!) achos doedd ganddo fo ddim gymaint a hynny i'w ddweud wrth bobl ddŵad na fisitors yn amal!

Sut bynnag fe godwyd y tŷ, ond doedd o ddim cweit wedi ei orffen, a chafodd o ddim cyfle i'w orffen chwaith cyn i'r salwch ei drechu, er ei fod o'n dal i sôn am fynd adra o'r ysbyty mor ddiweddar â dechrau'r mis yma.

Yn ôl yn mis Mai fe benderfynodd y bydda fo'n mynd i fyw i Lanber er mwyn cael gorffen y tŷ, ac am ei fod o'n mudo doedd byw na marw na chai o fynd â Janice a finna ac Elin allan am swper, cyn mynd fel petai. Fe aethon ni, ac fe gawson ni bryd o fwyd Cheineaidd gwerth chweil, chaethon ni ddim cyfle i dalu'r gymwynas yn ôl, bum diwrnod wedyn roedd o yn yr ysbyty, ac yno y bu, bron yn ddifwlch, tan y diwedd.

Y noson honno fe gododd gwilydd mawr arnan ni drwy dynnu coes y ferch oedd yn gweini wrth y bwrdd swper yn ddidrugaredd, ond chwarae teg iddi, er nad oedd hi'n deall hanner beth oedd o'n ei ddweud wrthi, fe gymerodd y cyfan mewn hwyl.

Fe wnaeth Gwynedd lu o gymwynasau i lawer ac i Janice a minnau, a dim ond un ohonyn nhw oedd edrach ar ôl y gath pan oeddan ni ar wyliau. Roedd o bob amser yn barod ei gymwynas, roeddan ni'n ffrindia, ac roedd o'n rhywun y gallech chi ddibynnu arno fo bob amser.

Doedd gan Gwynedd a Brenda ddim plant, ond roedd ganddyn nhw deulu, ac fe fydd y teulu, yn enwedig y plant, yn cofio'n annwyl am eu hewythr. Rydan ninnau oedd yn ffrindia ac yn gydnabod iddo yn cofio yn annwyl amdano hefyd, ac yn diolch am gael cerdded peth o'r ffordd yn ei gwmni, hebddo fo ma'r Nant ma yn dawelach a gwahanol.

Ac i gloi ychydig eiriau o ddau englyn gan Dic Jones pan gollodd o gymydog:

**Marw Cymydog**

Mae ambell un ym mhob llan
– yn dawel
A diwyd ymhobman,
A'r rhwyg, pan ddaw'r bedd i'w ran,
Yn fwy nag ef ei hunan

O fewn yr encilfannau – y gwenodd
Ei gannwyll ei golau,
Heb weld gan gewri'r bau –
Hyd nes ei weld yn eisiau.

PEN-BLWYDD HAPUS i rai o 'blant' (hynaf) Nant dros Ionawr a Chwefror: Shirley Davies, Tan Bryn, a oedd yn 60 ar y 21ain o Ionawr; Meirion Griffith (Mims) oedd hefyd yn drigain ar y 27ain o Ionawr a Carys, 'Terfyn', sy'n ymuno â nhw ar y 4ydd o Chwefror. Pen-blwydd hapus iawn i'r tri ohonoch chi!

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

**Capel Rehoboth, Nant Peris am 2.00 o'r gloch**
Croeso i chi ymuno â ni yn ein hoedfaon

**Chwefror**
5: Y Parch Robin Griffith, Llangybi;
12: Y Gweinidog;
19: Mr John Huw Hughes, Llanberis;
26: Y Parch Elfed ap Nefydd Roberts, Wrecsam.

**Mawrth**
5: Y Parch Reuben Roberts, Y Bontnewydd.

**Pregethau byrion gyda seiat i ddilyn ran amla'.**
Ysgol Sul i'r plant a phobl ifanc am 2.00 o'r gloch.
**Hefyd, yn ystod tymor y Grawys, darperir cawl llysieuol a phaned am 3.00 o'r gloch yng 'Nghaffi Cristnogol' Rehoboth.**


**Mae *Eco'r Wyddfa* yn chwilio am Drefnydd neu Drefnyddion Hysbysebion i gasglu hysbysebion oddi wrth fusnesau'r fro**

- Cyfle i ddod i adnabod busnesau mawr a bach
- Gwaith diddorol a hanfodol i lwyddiant ariannol y papur
- Ychydig oriau bob mis yn unig (yn arbennig adeg y 'Cyfarchion Nadolig' yn nau rifyn Rhagfyr)
- Cyfle i ddysgu'r gwaith yng nghwmni Trefnydd Hysbysebion presennol y papur, sy'n rhoi'r gorau i'r gwaith ar ddiwedd y flwyddyn.

**I glywed mwy, cysylltwch â**
**John Roberts,**
**Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug**
**(01286) 675605**
**johnroberts@parabl.com**



Harddwch eich cartref gyda
**FFENESTRI CELTIC** WINDOWS
SECURE IN OUR PROTECTION WA
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# Newyddion Ysgol Brynrefail



*Ffrindiau newydd!*



*Mwynhau cwmni Siôn Corn.*

## Parti Pendalar

Dros y deufis diwethaf, bu'r Chweched Dosbarth wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer a threfnu'r parti blynyddol gyda disgyblion Ysgol Pendalar. Aeth y myfyrwyr ati'n ddyfal i gasglu arian o bob pentref yn yr ardal a hael iawn fu ymateb y busnesau a'r trigolion unwaith eto eleni. Cynhaliwyd hefyd nifer o weithgareddau i godi arian megis gig gyda grwpiau'r ysgol, taith gerdded a raffl.

Ar ôl codi swm sylweddol aeth grŵp dethol ati i brynu anrhegion i'r disgyblion. Yn dilyn gwahanol gynhyrfiadau gyda'r bws mini, a nwyddau allan o stoc, cafwyd popeth yn ei le erbyn y dyddiad penodedig, yn barod i'w lapio gan neb llai na choracchod Santa ei hun!

Ar y diwrnod mawr roedd pawb o'r Chweched Dosbarth ynghlwm â'r bwrlwm, yn brysur yn coginio, yn addurno'r neuadd a'r ffreutur, neu'n helpu Siôn Corn gyda'r holl anrhegion. Erbyn un o'r gloch y prynhawn, roedd popeth yn barod a chyrhaeddodd disgyblion Pendalar. Cafwyd gwestai arbennig hefyd i ddiddori'r plant – neb llai na Dafydd Iwan ei hun, a bu cryn hwyl yn canu hen ffefrynnau Cymreig gydag ef, ac roedd hi'n amlwg i bawb fwynhau'r adloniant. Rydym yn hynod ddiolchgar i Dafydd Iwan am ei barodrwydd i ymuno yn yr hwyl unwaith eto eleni.

Ar ôl y canu a'r dawnsio, a phawb wedi magu blys, roedd gwledd yn aros yn y ffreutur. Mwynhawyd yr arlwy gan bawb – yr amrywiaeth o brydau sawrus, brechdanau, teisennau, jeli, hufen ia – yn wir, roedd rhywbeth at ddant pawb. I orffen y prynhawn, cafwyd un ymwelydd arall o bwys, ie, Siôn Corn, gyda llond sach o anrhegion diddorol i bob un o'r plant.

Oherwydd haelioni y cyhoedd a busnesau lleol, fe lwyddwyd eleni i godi swm sylweddol a bu hyn yn gyfrwng i'r Chweched allu cyflwyno siec am £500 tuag at gronfa Apêl Ysgol Newydd Pendalar. Hoffwn felly ddiolch unwaith yn rhagor i bawb a gyfrannodd at ddigwyddiad hynod bwysig yng nghalendr y flwyddyn yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Pendalar. Isod rhestrir enwau'r cwmniau hael:

**Deiniolen:**
Band Deiniolen; Garej Beran; Y Clwb Pêl-droed; T&JG; Ysgol Gwaun Gynfi; Cyfeillion Tafarn y Bull; Tafarn y Wellington; Barglays.

**Caernarfon:**
Gwesty'r Celt; Barnet Pepper; Palas Print; Roberts & Owen; Cwmni Da; HSBC; Natwest; Clwb Cefnogwyr Tref Caernarfon; Abbey National; Adfer; John Williams, Carpedi; Hogan Brothers Construction; Heddlu Gogledd Cymru; Cyfeillion Caernarfon.

**Waunfawr:**
Geraint Owen, Carpedi; Pant Waen; Cyfeillion Waunfawr;

**Llanrug:**
Arvonia; Garej Hafod; Seiont Nurseries; Y Swyddfa Bost; Londis; Siop Premier; Ysgol Llanrug; Brynteg; Saer Maen; Wavell; Cerid Mackinnon; Cyfeillion Llanrug.

**Llanberis:**
Côr Lleisiau Lliwedd; Swigod a Sebon; Côr Dyffryn Peris; Garej Snowdon; Fandangles; Garth Maelog; Pete's Eats; Copa Copaon; KMP; Crefftau Crib Goch; Joe Brown; Fferm Fêl; Y Swyddfa Bost; Cyfeillion Llanberis.

**Bethel:**
Clwb Pêl-droed; Merched y Wawr; Y Gelli Gyffwrdd; Cyfeillion Bethel.

**Penisarwaun, Cwm-y-Glo a Brynrefail:**
Y Swyddfa Bost, Brynrefail; Plant Hire; Cartref Nyrsio Penisarwaun; E. a L. Jones; Michael Jones; Cyfeillion Penisarwaun, Cwm-y-Glo a Brynrefail.

**Y Felinheli:**
Tafarn y Gardd Fôn


## Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

**Enillwyr Clwb Cant Hydref:**
1. (7) Mr Dafydd W. Evans, Sycharth, Penisarwaun: £48.50;
2. (63) Mrs Wendy Roberts, Plas Eifion, Y Felinheli: £29.10;
3. (55) Dr Gwyn Williams, 3 Preswylfa, Llanberis: £19.40.

**Tachwedd:**
1. (44) Mrs Evelyn Williams, Glan Gors, Llanrug: £48.50;
2. (166) Mrs Diana Pritchard, 11 Stryd Ceunant, Llanberis: £29.10;
3. (82) Mrs Lynda Jones, Bryn Eden, Llanrug: £19.40.

**Rhagfyr:**
1. (142) Mr Gwyn Williams, Bryn Tirion, Betrhel: £48.50;
2. (188) Mr E. Vaughan Williams, Cae Gwynnog, Cwm y glo: £29.10;
3. (143) Sharon Walsh-Davies, Pant Afon, Penisarwaun: £19.40.

Llongyfarchiadau a diolch am eich cefnogaeth.



*'Gymra i un gacen arall dwi'n meddwl!'*



*Dafydd Iwan yn diddori'r dorf.*

# DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

CODI ARIAN. Helpu pobl eraill llai ffodus na hwy eu hunain, dyna wnaeth rhai o bobl ifanc Deiniolen ddiwedd y flwyddyn. Trwy wisgo mewn gwisg ffansi (y rhaglen deledu *Little Britain*) a mynd o amgylch i olchi ceir, cododd Manon, Cadi, Peri, Liam a Daniel y swm o £117 i gronfa Plant Mewn Angen. Peidied neb â dweud nad yw pobl ifanc heddiw yn dda i ddim, dyma i chi enghraifft o rai meddylgar, gweithgar a charedig, ac yn werth eu cael mewn pentref. Diolch iddynt. Buasent hwythau yn hoffi diolch hefyd i bawb fu mor garedig â'u cefnogi i godi'r arian yma.



ANFONWN EIN COFION cynnes at bawb sydd mewn gwendid a gwaeledd, gartref neu mewn ysbytai. Brysiwch wella!
Cofion hefyd at rai mewn profedigaeth, y rhai sy'n hiraethu am anwyliaid a gollwyd. Bendith arnoch.
HOFFAI Heather Williams o Glasinfryn ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, arian, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn dilyn ei damwain.
DIOLCH. Dymuna Mrs Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas, a Gwyn, Nia a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chynhaliaeth, boed yn ymweliadau, galwadau ffôn neu gardiau cydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl iawn, Elfyn Parry. Derbyniwyd rhoddion o £950 i Cymorth Cristnogol er cof amdano.

Diolch arbennig i'r Parchedigion Gwynfor Williams, Angela Williams a Mr Robin Coetmor Williams am eu gwasanaeth. Hefyd aelodau Eglwys Pisgah am eu holl gymwynasau, ac am drefniadau personol ac urddasol Dylan Griffith, Tros y Waen, Pensiarwaun.
Y GYMDEITHAS. Cafwyd sgwrs gan y Dr Dafydd Roberts, Yr Amgueddfa Lechi, yng Nghymdeithas Lenyddol Deiniolen mis Tachwedd.

Roedd yn amlwg i bawb fwynhau'r hanes am Thomas William, 'Twm Chwarae Teg a'i glawdd pileri llechi'. Llywyddwyd gan y Gweinidog a diolchwyd i Dr Roberts gan Mrs Margaret Cynfi Griffith.
NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

## DRAENOG

**Cael ar ddeall fod 'Pen Cigydd y Fro' wedi penderfynu creu gwyrthiau (wel, o leiaf un wyrth) cyn ymddeol. Gan ei fod eisoes wedi ennill rhai o brif wobrau Cymru a Phrydain am wneud sosejus, aeth gam ymhellach yn ystod mis Ionawr eleni, a throi sosej yn goes cyw iâr neu droi coes cyw iâr yn sosej. Dyna, o leiaf, feddyliodd dau gwsmer o Lanrug. Wedi cyrraedd gartref, aeth un ati i ffrio – na, nid sosej, ond cyw iâr, ac aeth y llall ati i rostio – na, nid cyw iâr, ond sosej! Does dim gwir i'r si fod nifer o gwsmeriaid yn bwriadu prynu 'dripping' yn y gobaith o gael darn go dda o biff!**

DATHLU'R NADOLIG. Yn Ebeneser, ar fore Sul, 18 Rhagfyr, bu'r plant yn cymryd rhan yn Nrama'r Nadolig. Gwnaeth pawb ei ran yn ardderchog, o'r hynaf i'r ieuengaf.

Dyma'r tro cyntaf i ni orfod bod heb Jean, heb ei brwdfrydedd a'i harweiniad ond buasai'r ffaith ein bod wedi llwyddo i gynnal y fath wasanaeth yn ei phlesio'n fawr. Mae ei dylanwad ar ôl yn yr Ysgol Sul er iddi ein gadael, ac estynnwn ddiolch am y gwaith caled a wnaeth ar hyd y blynyddoedd, gan osod sylfeini cadarn i ni sydd ar ôl.

Cafwyd gwasanaeth Nadolig gan blant Llandinorwig ar yr un diwrnod, a'r plant yn gwneud eu rhan yn rhagorol eto.

Gyda'r nos, cafwyd gwasanaeth Cristingl yn Eglwys Llandinorwig, a'r plant yn cymryd rhan eto. Cafodd pawb – yn blant ac oedolion – symbol o'r Cristingl yn eu llaw.

Y diwrnod canlynol, 19 Rhagfyr, cynhaliwyd parti Nadolig y plant yn Ebeneser ac yn Llandinorwig. Llwyddodd Siôn Corn i ymweld â'r ddau le yn ystod y prynhawn, a chafwyd awyrgylch hapus iawn. Diolch i bawb fu'n trefnu mewn unrhyw fodd.





*Gwen Griffith ac Eileen Hughes yn derbyn tlws o flodau ac anrheg bob un gan Siôn Corn (a 'sws' hefyd) ar ran plant yr Ysgol Sul yn y Parti Nadolig. Diolch yn fawr i'r ddwy am eu gwaith da a chaled ar hyd y flwyddyn, a diolch i Siôn Corn ar plant am gadw'r gyfrinach.*



*Ysgol Sul Unedig Deiniolen yn eu parti Nadolig yn Ebeneser yng nghwmni Siôn Corn. Cawsant amser da iawn.*



*Plant Ysgol Sul Llandinorwig yn mwynhau eu hunain yn y parti nadolig ac yn disgwyl yn addfwyn am Siôn Corn.*


**R. L. DAVIES**
Coed Bolyn Mawr, Bethel
JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion
**(01248) 671300** neu **(07775) 638620**

**R.M. (DIC) PARRY**
**PEINTIWR AC ADDURNWR**
*PRISIAU RHESYMOL*
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

# Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y glo, 2005

**Nos Wener Tachwedd 11**
**Ysgol Brynrefail**

Unwaith eto eleni cafwyd eisteddfod lwyddiannus gyda chystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth bron. Roedd neuadd Ysgol Brynrefail yn llawn drwy ran fwyaf o'r noson ac yn ôl y beirniaid roedd 'na sglein arbennig ar y cystadlu, gydag un o'r beirniaid yn falch iawn o gael ei atgoffa fod ambell eisteddfod bentref yn dal i ffynnu.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd i lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr lawn o'r canlyniadau:

**Cystadlaethau Llwyfan**

*Unawd Dosbarth Derbyn*
1. Erin; 2. Teleri; 3. Miriam Catrin a Matthew Wiggins.

*Adrodd Dosbarth Derbyn*
1. Miriam Catrin; 2. Teleri; 3. Erin.

*Unawd Blwyddyn 1 a 2*
1. Ceri Fflur Griffith; 2. Gwydion Rhys Williams; 3. Lleucu Brookes.

*Adrodd Blwyddyn 1 a 2*
1. Osian Gruffudd Edwards; 2. Beca Llwyd; 3. Catrin Ann Roberts a Llinos Haf Jones.

*Unawd Blwyddyn 3 a 4*
1. Gwern Llŷn Brookes; 2. Hanna Huws Tulliver; 3..Beca Gwenllian George a Mari Elin Gibbard.

*Adrodd Blwyddyn 3 a 4*
1. Hanna Huws Tulliver a Math Emyr.

*Unawd Blwyddyn 5 a 6*
1. Rhodri Llŷn Brookes; 2. Chloe Marie Roberts; 3. Anna Wyn Jones a Ffion Wyn Roberts.

*Adrodd Blwyddyn 5 a 6*
1. Tomos Huws Tulliver;
2. Anna Wyn Jones.

*Parti Unsain Oedran Cynradd*
1. Blwyddyn 5 a 6 (Llanrug).
2. Blwyddyn 3 a 4 (Llanrug).
3. Cwm y Glo.

*Parti Llefaru Oedran Cynradd*
1. Genod Blwyddyn 5 a 6 (Llanrug);
2. Parti 3 a 4 (Llanrug);
3. Bechgyn Drwg (Llanrug).

*Unawd Offerynnol Oedran Cynradd*
1. Elain Siân Roberts; 2. Rhodri Gruffudd Williams; 3. Math Roberts ac Anna Wyn Jones.

*Dawnsio Disgo*
1. Chloe Roberts.

*Parti Dawns Werin Oedran Cynradd*
1. Criw y 'Sgidia Swnllyd' (Llanrug).

*Cyflwyniad Cerddorol Unigol Uwchradd*
1. Heledd Roberts; 2. Iwan Arwel; 3. Aled Rhys.

*Cyflwyniad Llafar Unigol*
1. Gwenno Gibbard.

*Cyflwyniad Cerddorol Grŵp*
1. 'Tanjarin Piws'.

*Sgets Cynradd / Uwchradd:*
1. Dwl Lal; 2. Twmffat Twp; 3. Ta- Ta Toshack a Pwy.

*Unawd Offerynol Uwchradd*
1. Aled Rhys; 2. Llywelyn Williams; 3. Heledd Roberts.

*Parti Canu Agored:*
1. Parti Merched Llanrug.

*Perfformiad offerynnol gorau:*
Aled Rhys.

*Unigolyn gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd:*
Rhodri Llŷn Brookes

*Enillydd Cadair Lowri:*
Ceri Fflur Griffith

**Canlyniadau Llenyddiaeth**

*Rhyddiaith Blwyddyn 3*
1. Holly Smith; 2. Mathew Roberts; 3. Lilac Amor.

*Rhyddiaith Blwyddyn 4*
1. Llŷr Guto Williams; 2. Lois Medi Roberts; 3. Ffion M Thomas.

*Barddoniaeth Blwyddyn 5*
1. Anna Wyn Jones; 2. Kim Tate; 3. Sophie M Allman.

*Rhyddiaith Blwyddyn 6*
1. Ffion Erin; 2. Elain Roberts; 3. Llio Emyr.

*Barddoniaeth Blwyddyn 6*
1. Ffion Erin; 2. Gwion Ynyr Roberts; 3. Ifan Lloyd Jones a Tomos Huws Tulliver.

*Llenyddiaeth Blwyddyn 8/9*
Catrin Cadmore.

*Llenyddiaeth Blwyddyn 10/11*
Ffion Eleri Jones.

*Llenyddiaeth Blwyddyn 12/13*
Megan Jones.

*Tlws yr Eisteddfod*
1. Catrin Cadmore; 2. Efa Dyfan.

*Cadair yr Eisteddfod*
1. Ffion Eleri Jones; 2. Megan Jones.

**Arlunio**

*Arlunio – Meithrin / Derbyn*
1. Miriam Catrin; 2. Miriam Catrin; 3. Liam Roberts.

*Arlunio – Blwyddyn 1 a 2*
1. Siôn Eifion Land; 2. Owain Bryn Gibbard; 3. Gwydion Rhys Williams.

*Arlunio – Blwyddyn 3 a 4*
1. Hanna Huws Tulliver; 2. Christopher Hulme; 3. Mari Elin Gibbard.

*Arlunio – Blwyddyn 5 a 6*
1. Tomos Huws Tulliver; 2. Jordan Lewis; 3. Rhodri Gruffudd Williams.

*Arlunio – Blwyddyn 7 ac 8*
1. Llywelyn Williams; 2. Llywelyn Williams; 3. Deian Williams.

**Dyluniad Cyfrifiadurol**

*Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Babanod (Sion Corn)*
1. Robin Whiteside Thomas;
2. Owain Bryn Gibbard;
3. Gwydion Rhys Williams.

*Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Iau (Gwahoddiad i barti)*
1. Beca Gwenllian George;
2. Mared Lois Williams;
3. Rhodri Llŷn Brookes.

*Dyluniad Cyfrifiadurol Oedran Uwchradd (Gorchudd ar gyfer Cd / DVD)*
1. Gwenno Angharad Gibbard;
2. Ifan Rhys Williams.

*Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau yn adran yr ysgolion:*
Llywelyn Williams.

**Tri Dimensiwn**

*Tri Dimensiwn Meithrin / Derbyn (Carreg wedi ei pheintio/Addurno)*
1. Catrin Smith;
2. Cai Gruffudd Edwards;
3. Anna Whiteside Thomas.

*Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2 (Y Parc)*
1. Math Roberts;
2. Lleucu Brookes;
3. Osian Gruffudd Edwards.

*Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4 (Cartref Indiaid Cochion)*
1. Holly Smith;
2. Gwern Llŷn Brookes;
3. Beca Gwenllian George.

*Tri Dimensiwn Blwyddyn 5 a 6 (Model ar y thema Olwynion)*
1. Emma Smith.

*Tri Dimensiwn Oedran Uwchradd (Cerdyn ar gyfer achlysur arbennig)*
1. Deian Williams.

**Tecstiliau**

*Tecstiliau Adran Babanod (Addurno Sach ar gyfer y Nadolig)*
1. Llinos Elin Roberts;
2. Siôn Eifion Land a Gwydion Rhys Williams;
3. Anna Whiteside Thomas a Robin Whiteside Thomas.

*Tecstiliau Adran Iau (Pwrs/Waled)*
1. Anna Wyn Jones
2. Beca Gwenllian George a Mari Elin Gibbard;
3. Ffion Haf Roberts;
4. Emma Louise Roberts.

**Coginio**

*Coginio Meithrin / Derbyn ('Peppermint Creams')*
1. Rhydian Llŷr Williams;
2. Teleri Medi Jones;
3. Anna Whiteside Thomas.

*Coginio Blwyddyn 1 a 2 (Addurno Cacennau bach ar gyfer Siôn Corn)*
1. Owain Bryn Gibbard;
2. Siôn Eifion Land a Robin Whiteside Thomas;
3. Gwydion Rhys Williams a Megan Wyn Pritchard.

*Coginio Blwyddyn 3 a 4 (Llenwi Fflan)*
1. Math Emyr;
2. Mari Elin Gibbard;
3. Iwan Rhys Jones a Rhun Meirion Williams.

*Coginio Blwyddyn 5 a 6 (Treiffl)*
1. Elain Siân Roberts;
2. Anna Wyn Jones;
3. Natasha Sellers.

*Coginio Oedran Uwchradd (Cacen Siocled)*
1. Gwenno Angharad Gibbard;
2. Llywelyn Williams a Heledd Anna Roberts;
3. Deian Williams.

*Coginio Agored – Merched (Swiss Roll)*
1. Rhian Whiteside Thomas.

*Coginio Agored – Dynion (Fferins Cartref)*
1. Vaughan Williams;
2. Irfon Jones;
3. Dafydd Roberts.

*Coginio Agored – Jam/ Marmaled*
1. Miriam Catrin;
2. Ffion Hâf Roberts;
3. Dafydd M Roberts.

*Coginio Agored – Chutney*
1. Manon Williams.

*Coginio Agored – Gwin Cartref*
1. Dafydd M. Roberts.

**Gosod Blodau**

*Gosod Blodau Agored (Gosodiad ar gyfer cinio rhamantus)*
1. Siw Brookes;
2. Cheryl Lianne Williams.

**Ffotograffiaeth**


*Ffotograffiaeth (Unrhyw lun ar y thema 'Gwyliau')*
1. Alys Fflyr Williams;
2. Dafydd Roberts;
3. Dafydd Roberts ac Irfon Jones.


GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk



Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805





CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR
Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**
Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**
Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG



Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088
SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



*Y prif ddisgyblion: Alaw Ceris, Ifan Dafydd Owen a Manon Williams, yn cyflwyno'r siec i Branwen Niclas o elusen Cymorth Cristnogol.*

## Codi Arian

Dyddiad pwysig arall yng nghalendr yr Ysgol yw ein Gwasanaeth Nadolig blynyddol a gynhaliwyd eleni ar 12 Rhagfyr, a gwnaed casgliad ar ddiwedd y noson. Ymhellach trefnwyd gig yn yr ysgol yn ystod prynhawn olaf y tymor, a thrwy'r gweithgareddau hyn llwyddwyd i godi £600. Penderfynwyd y byddem yn rhannu'r arian rhwng y mudiadau isod fel a ganlyn:

Cymorth Cristnogol: £300
Apêl Nyrsus Macmillan: £200
Hospis yn y Cartref: £100
Gwynedd a Môn

## Tîm Pêl-droed Bechgyn Blwyddyn 7

Wrth i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg, derbyniwyd y newyddion ardderchog fod y bechgyn wedi sicrhau buddugoliaeth arbennig o 6 gôl i 5 yn erbyn Ysgol Uwchradd Eirias, sy'n golygu mai y nhw felly yw Pencampwyr Eryri!

Llongyfarchiadau i chwi hogiau – ymlaen â chwi i'n cynrychioli ar lefel cenedlaethol rŵan!

## Trefn ar Ein Treftadaeth Trwy Dechnoleg

Menter newydd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn cydweithrediad â chyrff eraill, yw Bwrlwm Eryri. Nod y fenter yw gwarchod a hyrwyddo'r dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sydd gennym o fewn ffiniau'r Parc ac mewn ardaloedd cyfagos. Bwriedir gwneud hynny drwy gydweithio â chymunedau a chymdeithasau er mwyn casglu, cofnodi, gwarchod a hyrwyddo ein treftadaeth i'r dyfodol.

**Cyfeiriadur Llenyddol**

Y prosiect cyntaf yw creu Cyfeiriadur Llenyddol Eryri. Adnodd ar y We fydd hwn, fydd yn galluogi unrhyw un i chwilio yn gyflym am gerdd neu rigwm neu ysgrif sydd un ai yn waith llenor arbennig, neu sy'n sôn am destun sy'n cyfrannu at ymdeimlad pobl o berthyn i ardal ac amgylchfyd.

**Cyfle Ymchwil**

Er mwyn creu casgliad o'r fath mae gennym dîm o gydlynwyr mewn tair ar ddeg o ardaloedd yng nghyffiniau'r Parc Cenedlaethol, ac maent angen eich help chi i hel cynnyrch llenyddol o bob math. Os gwyddoch chi am gerdd neu rigwm neu hen ddoethinebau llafar gwlad sy'n ymwneud ag Eryri ac yn werth eu cynnwys yn y cyfeiriadur (boed wedi eu cyhoeddi'n barod neu beidio) yna cysylltwch â'ch cydlynydd ar fyrder!

**Technoleg Gyfoes**

Fel gwirfoddolwr, bydd gofyn i chi yn gyntaf gysylltu â'ch cydlynydd lleol, er mwyn osgoi cyfrannu'r un cynnyrch â rhywun arall ac er mwyn cael cyfeiriad gwefan a chyfrinair i'r ffurflen cywain llenyddiaeth. Bydd y wefan ar ei thraed erbyn dechrau Chwefror, a bydd y cyfnod casglu cyntaf yn para tan ddiwedd Ebrill 2006. Os nad oes gennych gyfrifiadur, gellir gofyn am arweiniad a defnyddio un am ddim yn eich llyfrgell leol.

Ni fydd y cynllun yn gwneud elw nac yn datgan unrhyw hawlfraint ar gynnwys llenyddol y cyfeiriadur. Cyfrifoldeb defnyddwyr y cyfeiriadur fydd cydnabod awdur a ffynhonnell pob dyfyniad a ddefnyddir. Cefnogir y prosiect gan Barddas a chan y Cwlwm Cyhoeddwyr.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dod yn rhan o dîm lleol sy'n casglu deunyddiau llenyddol da, cysylltwch â Meg Elis, cydlynydd ardal *Eco'r Wyddfa*, ar 01286 650 756 / newidcymru@btinternet.com, neu ag Elin Alaw, Swyddog Bwrlwm Eryri ar 01766 772 532/ elin.alaw@eryri-npa.gov.uk.

## Awr o theatr – oes o brofiad

Mae Cwmni Theatr Arad Goch o Aberystwyth yn teithio eu cynhyrchiad diweddaraf *Tafliad Carreg / Stones* gan Tom Lycos a Stefo Nantsou led led Cymru yn dechrau ar Chwefror 6ed. Yn ystod y pum wythnos bydd y cwmni'n perfformio'r ddrama yn Gymraeg a Saesneg mewn lleoliadau o Gasnewydd i Gaergybi – a mwy neu lai ym mhobman arall rhwng y ddau begwn! Bydd perfformiadau cyhoeddus Cymraeg yn Galeri, Caernarfon, ar 13 Chwefror ac yn Theatr Gwynedd, Bangor, ar 3 Mawrth – y ddau berfformiad am 7.30pm

Mae Tafliad Carreg yn ddrama sydd wedi ennill gwobrau – a hynny'n haeddiannol. Mae'r ddrama wedi'i selio ar adroddiad papur newydd a'r teitl hysteraidd 'BOYS ON DEATH CHARGE'. Adroddir hanes dau fachgen ifanc wrth i'w chwarae droi'n chwerw.

Mae *Tafliad Carreg* yn gwbl real – stori go-iawn, cymeriadau go-iawn a chanlyniad real, os dadleuol. Mae'n anochel y bydd trafod a dadlau am y realaeth hwnnw – am gyfiawnder, anfodlonrwydd pobl ifanc, am y modd y'u portreadir, am eu hagwedd a'u hiaith. Dyma theatr real hefyd – cyfuniad egnïol a phwrpasol o naratif, deialog, cerddoriaeth a symud – heb os dyma un o'r dramâu gorau, mwyaf poblogaidd a chyfoes sydd ar gael i bobl ifanc heddiw.

Dyma ail gynhyrchiad Arad Goch o'r ddrama. Yn 2000 fe ddaeth y dramodwyr Awstralaidd i Gymru i gynhyrchu fersiwn gyntaf y cwmni. Ers hynny perfformiwyd y ddrama yn fyd-eang a derbyniodd ganmoliaeth uchel iawn. Y tro hwn, Sêra Moore Williams sy'n cynhyrchu ond Iwan Charles ac Owain Llŷr Edwards sy'n portreadu'r ddau fachgen fel o'r blaen. Mae'r ddau yn amlwg yn falch iawn o'r cyfle i wneud hynny:


'Mae'n ddarn sy'n gweithio mor dda i gynulleidfaoedd o bobl ifanc ac oedolion,' meddai Charles. 'Mae yna angst a hiwmor, ac yn fwy na dim mae'n dddrama sy'n berthnasol i'n bywydau heddiw.' Ac ychwanega Edwards:

'Bonws ychwanegol yw bod cymaint yn cael ei gynnwys yn y perfformiad sy'n para prin awr – mantais fawr i gynulleidfaoedd eang eu diddordeb ond prin eu hamser.'

Am fanylion pellach ynglŷn â'r daith cysylltwch ag Arad Goch (01970) 617998; post@aradgoch.org neu ymwelwch â'r wefan: www.aradgoch.org.

Am docynnau i'r perfformiad yn Galeri ffoniwch (01286) 685222 ac yn Theatr Gwynedd (01248) 351708.


H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

DIOLCH. Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar, a hefyd am eu caredigrwydd dros y Nadolig.

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 13 Rhagfyr, aeth aelodau cangen Llanrug i'r Country Manor i ddathlu'r Nadolig. I gychwyn bu'r aelodau yn cymdeithasu yn y lolfa ac estynnodd Bethanne, y Llywydd, groeso cynnes i bawb. Darllenodd lythyr gan Haf Thomas yn diolch am y cyfraniadau a wnaed tuag at yr Ambiwlans Awyr. Anfonwyd cofion at Jean, sydd yn yr ysbyty. Diolchwyd i Phyllis a'r aelodau eraill a fu'n cynorthwyo yn yr Ysgol Undydd i Ddysgwyr. Llongyfarchwyd y tîm a ddaeth yn ail o fewn Dosbarth Arfon yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a diolchwyd i Enid am gynrychioli'r gangen ar yr Is-bwyllgor Chwaraeon.

Mwynhawyd pryd ysblennydd o fwyd a llawers sgwrs ddiddorol. Diolchodd Bethanne i Linda, yr Is-ysgrifenyddes am drefnu'r noson ac i staff y gwesty am arlwy mor ardderchog. Enillwyd y gwobrau raffl gan Eryl a Mair ac, i ddiweddu, dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 10 Ionawr a thema'r noson fydd 'Aqua Detox'.

* * *

Nos Fawrth, 10 Ionawr, estynnwyd croeso cynnes i bawb a dymunwyd i ni Flwyddyn Newydd Fendithiol yn 2006 gan y Llywydd, Bethanne Williams. Anfonwyd ein cofion anwylaf at aelodau sydd wedi bod yn sâl a da deall fod Jean yn gwella wedi ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolchwyd i bawb fu'n barod i siarad â'r Dysgwyr yn Ysgol Maesincla. Bydd Beryl Thomas yn un fydd yn cynnal Tawelwch Noddedig ar 20 Ionawr a diolchir iddi, gan fawr obeithio ei bod yn well wedi iddi ddisgyn yn ddiweddar.

Bydd y gangen yn gofalu am y Caffi yn ystod Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ar 4 Mawrth. Bydd rota gweinyddu a rhestr cyfraniadau bwyd ar gael eto y mis nesaf. Diolchwyd hefyd i'r rhai brwdfrydig ar eu llwyddiant yn y Cwis yn ddiweddar.

Cytunwyd i gyfrannu £100 i anghenion Lesoto. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar 13 Mai ac mae angen yr enwau rhag blaen os gwelwch yn dda.

Ar fyr rybudd, estynnwyd croeso cynnes i Linda Hughes, cyd-lynydd Cynllun Calon Lân, Gwynedd. Wedi cyfnod fel athrawes Gwyddor Tŷ fe arallgyfeiriodd ac mae bellach yn mwynhau'r gwaith gyda'r ymgyrch 'Calon Lân'.

Sefydlwyd Calon Lân yng Ngwynedd ym Mai 2002 ac mae'r tîm yn gyfrifol am waith ataliol Clefyd y Galon yn ogystal â gwasanaeth Adfer y Galon. Mae'r cynllun wedi ei ariannu gan Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynllun tair blynedd yn wreiddiol ond mae'r Cynulliad wedi ei ymestyn hyd at 2007.

Mae'n cynnwys 6 aelod o staff, sef Cyd-lynydd y Cynllyn, 3 nyrs Adfer y Galon, Arbenigwr Ymarfer a Rhoi'r Gorau i Ysmygu, a Swyddog Gweinyddol.

Mae'r prosiect yn gwasanaethu cymunedau penodol o fewn Gwynedd, Arfon a Meirionnydd. Yn Arfon gwasanaethir Caernarfon, Bangor, Deiniolen a Bethesda, a Phen-y-groes, Talysarn a Llanllyfni yn Nyffryn Nantlle.

Trefnir gwasanaethau Bwyta'n Iach, Ymarfer Corff ac Atal Ysmygu a rhoddir targedau i sgrinio nifer penodol o gleifion risg uchel bob blwyddyn gan obeithio osgoi trawiad ar y galon.

Yn ôl y pamffledyn, allwedd llwyddiant y prosiect yw gweithio mewn partneriaeth, sef Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd a Chynghrair Iechyd Gwynedd. Gobeithir hefyd gweithio'n agos â gwasanaethau cyfredol yn y canolfannau hamdden, cynllun Ysgolion Iach a rhaglenni cymunedol megis Cymunedau'n Gyntaf.

Mae cleifion 'Calon Lân' wedi sefydlu grwpiau cefnogi – un yn Arfon, un ym Mhwllheli a'r llall yn y Bala. Pwrpas y grwpiau yw annog cleifion i sgwrsio â'i gilydd ac i gefnogi ei gilydd, eu partneriaid a'u teuluoedd pan mae ganddynt bryderon. Mae'r grwpiau yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddynt raglen o weithgareddau amrywiol megis nosweithiau cymdeithasol, teithiau cerdded a chyfarfodydd ffurfiol.

Awgrymir y buasai'n llesol i bawb ohonom wylio'r raglen *Er Lles Pawb* sydd ymlaen ar 31 Ionawr, pryd y ceir dilyn llawdriniaeth ar y galon yn Ysbyty Broadgreen a hynny gan feddyg Cymraeg.

Diolchwyd i Linda am y sgwrs arbennig o bwysig yma a gobeithir y caiff y cynllun ei ariannu am flynyddoedd lawer i ddod.

Enillwyd y raffl gan Nan



*Dylan Hughes, is-reolwr Gwesty'r Seiont Manor, Llanrug, yn cyflwyno cit newydd i dîm Llanrug Unedig.*


**Cyngor Cymuned Llanrug**

Gwahoddir tendrau ar gyfer torri gwair y ddau gae chwarae a'r fynwent yn Llanrug

Dyddiad cau: dydd Gwener, 17 Chwefror 2006

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Mair Lloyd Hughes, Glasgoed, Llanrug (Clerc) (01286) 677263


## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, Rhagfyr 20fed yn y Sefydliad Coffa Llanrug. Cadeiriwyd gan y Cyngh. Arwel Thomas. Cadarnhawyd yn gywir gofnodion cyfarfod mis Tachwedd a llongyfarchwyd y Cyngh. Eryl Roberts a'r Cyngh. Avril Jones ar gael wyres fach bob un. Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd fel rhai cywir.

Yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghwm y Glo ddechrau mis Rhagfyr, gobeithir y bydd y problemau trafnidiaeth drwy'r pentref yn cael eu dileu yn y dyfodol agos. Cyfarfu Mr Malcolm Cowan (Rheolwr Cludiant Cyhoeddus) Mr. Dave Hulme (Cwmni KMP) a'r Cynghorwyr Avril Jones a Brian Jones. Mae trefniadau ar y gweill i farcio'r ffordd gyda mannau penodol i barcio. Bydd yr heddlu yn ymweld â'r pentref a byddant yn cosbi'r sawl sy'n creu rhwystr ar y ffordd. Mae llythyr ar y ffordd i holl drigolion Stryd Fawr y pentref fod yn feddylgar o symudiadau traffig a diogelwch wrth barcio.

Bydd cais yn cael ei gyflwyno i gael cysgodfan bws wrth ymyl y Post yng Nghwm y Glo.

Ceisiadau Cynllunio – daeth chwe chais gerbron ac nid oedd gwrthwynebiad i dri ohonynt. Ond gwrthwynebwyd cais i addasu adeilad gwag yn Nhan y Coed i greu uned gwyliau – am fod y cyngor wedi gwrthwynebu'r cais hwn eisoes. Gwrthwynebwyd cais i godi tŷ yng nghefn Rhes Disgwylfa oherwydd bod mynediad i'r safle mewn rhan beryglus ar Ffordd yr Orsaf.

Gwrthwynebwyd cais i adeiladu un tŷ ychwanegol ar y tir ger Minffordd gan fod y cais hwn wedi ei wrthod pan wnaed y cais gwreiddiol ar gyfer cwblhau'r Stad hon.

Yn dilyn ein pryder am y llifogydd yn ystod y misoedd diwethaf, cafwyd addewid gan Reolwr Perygl Llifogydd y bydd archwiliad yn cael ei wneud ar yr afon rhwng Pont Rhythallt a Stabla er mwyn asesu effeithiolrwydd llifeiriant yr afon. Mae'r broblem yn y Crawiau wedi ei datrys.

Yng nghyfarfod o Gynghorau Cymuned / Tref a gynhaliwyd ddiwedd mis Tachwedd, cynrychiolwyd y Cyngor gan Arwel Thomas a Dafydd Wh. Thomas. Adrodd D. Wh. Thomas yn ôl i'r Cyngor a'r prif faterion oedd y bydd 15 o Wardeiniaid parcio yng Ngwynedd erbyn Ebrill 2007. bydd ceisiadau cynllunio a ddaw gerbron pob Cyngor Cymuned i gael Tai Fforddiadwy yn cael eu dynodi'n glir gyda 'Cymal 106' arnynt.

Nid oedd ymateb i'r ymholiadau am lwybr beicio Dyffryn Peris nac i ffordd osgoi Caernarfon drwy Bontrug. Nid oedd cofnod o gwbl fod bwriad i ledu'r ffordd ymhen allt Ceunant. Gobeithir cael *'lengthman'* yn ôl ar y ffyrdd unwaith eto. Diolchwyd i'r ddau am fynd i'r cyfarfod ac i Dafydd am ei adroddiad.

Bydd y clerc yn gohebu ynglŷn â chael torri'r coed sy'n tyfu'n uchel yng Nghorlan y Rhos. Maent yn cuddio golau'r lampau stryd erbyn hyn. Bydd hefyd yn cysylltu â chwmni Premier i fynegi pryder a siom nifer o bentrefwyr am nad oes unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg ar yr arwyddion tu mewn na thu allan i'r siop ar sgwâr Llanrug.

Darllenwyd llythyr o'r Adran Gynllunio a Thrafnidiaeth yn hysbysu fod apêl yn erbyn Rhybudd Gorfodaeth wedi ei wneud i Lywodraeth Cynulliad Cymru parthed Cae Rhydau, Caeathro. Pasiwyd fod y clerc yn anfon llythyr at yr Arolygwyr Cynllunio yng Nghaerdydd yn atgyfnerthu safiad Cyngor Cymuned Llanrug a'n bod yn gwrthwynebu fel ag o'r blaen.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Ionawr 17eg 2006.


***Fframia*** **Gwasanaeth Fframio Lluniau**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

**Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:**

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Humphreys a gwnaed y baned gan Phyllis, Myfanwy ac Ann. Gwestai mis Chwefror fydd Sam Roberts.

DIOLCH. Fe hoffai Patsy Copper ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed ar 20 Rhagfyr.

LLONGYFARCHIADAU i Dion Siôn Owen o Hafod-y-rhos, Llanrug am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth 'Prentis y Flwyddyn EEF Cymru'. Mae Dion ar ei drydedd blwyddyn fel prentis peiriannydd yn Aliwminiwm Môn.

Cafodd ei gyflwyno gyda thystysgrif mewn ffrâm yn Arena Rhyngwladol Caerdydd ar 8 Rhagfyr 2005 gan Kate Bellingham, cyn-gyflwynwraig y rhaglen deledu *Tomorrow's World*.




Y SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr Clwb Cant Ionawr oedd: £20: Mrs D. Jones, 2 Talybont; £7: Mr A. Parry, Bryn Heli; £5: Mrs M. Jones, 24 Hafan Elan.

PROFEDIGAETHAU. Bu farw Mrs Blodwen Roberts, gweddw Dafydd Warren Roberts, 14 Bro Rhyddallt, yn 55 mlwydd oed. Trist iawn yw'r golled i'r plant: Mandy, Vanessa, Gillian a John, a'r teulu oll. Cydymdeimlwn yn arw â chi.

Hefyd yn sydyn iawn ar 4 Rhagfyr bu farw Mr Richard David Owen, gynt o Glan Moelyn, ond wedi ymgartrefu yn ddiweddar yn Bro Dawel Teras, Trefor, Tan y Coed, gyda'i fab, Doug. Cydymdeimlwn yn arw â'r teulu, y plant: Richie, Douglas ac Anita, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Judith ac Andrew, Seibiant, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth eu merch fach, Catrin, wyres gyntaf i Norman a Jane, 4 Disgwylfa Teras.

YR YSGOL GYNRADD.

*Yr Urdd.* Dydd Sadwrn, 14 Ionwr bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yn Nhwrnament Pêl-rwyd Rhanbarth Eryri. Wedi gemau caled yn erbyn gwahanol adrannau daethant i'r gêm derfynol yn erbyn adran Bontnewydd. Bontnewydd a orfu ond mwynhaodd y genod y profiad yn fawr.

*Ffarwelio.* Yn ystod y gwasanaeth boreol ddiwedd y tymor diwethaf fe ffarweliwyd â Mrs Gillian Williams, a oedd wdi bod yn athrawes yma am dros flwyddyn. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd yn Ysgol Gynradd Amlwch.

Croesawn Mrs Ann Evans atom am gyfnod.

*Dymunwn yn dda* i Sian Williams, Bl. 4 fydd yn cynrychioli Rhanbarth Eryri yn y gystadleuaeth nofio yn y dull rhydd dan 10 oed yn y Cystadlaethau Nofio Cenedlaethol yn Aberystwyth ddiwedd mis Ionawr.

DIOLCHIADAU. Dymuna Andrew a Judith, Seibiant, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl ddymuniadau da, mewn galwadau, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Catrin. Diolch yn fawr.


TAFARN BRYNGWNA
Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch (01286) 674568 i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw

Blodau Racca
(ALWYN AND SARAH JONES)
Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon at bob achlysur
Priodas
Parti
Te Angladdau
Cinio Busnes
CERID MACKINNON
Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190



GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon ar 01286 672333

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher
Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YSGOL WAUNFAWR. Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr *Eco*, a charem hefyd ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bu diwedd y tymor yn brysur fel arfer, dyma argraffiadau rhai o blant Blwyddyn 6 o ddigwydd-iadau'r tynor.

* * *

**Cinio Nadolig a Siôn Corn**

Ar ôl wythnosau o feddwl sut het Nadolig i'w wneud roedd y diwrnod wedi cyrraedd! Diwrnod cinio Nadolig Ysgol Waunfawr. Erbyn i ni gyrraedd yr ysgol roedd pawb yn gwisgo eu hetiau. Ar ôl amser chwarae cawsom gerdded ar y *catwalk* i ddangos ein hetiau i'r beirniaid, sef Anti Luned, Anti Tracy, Anti Carol ac Anti Eryl. O Flwyddyn 6 daeth Sioned yn gyntaf, Stephen Mill yn ail ac Adam yn drydydd. Cafodd 3 plentyn o bob blwyddyn yn yr Adran Iau wobr a chafodd pawb siocled gan Mrs Dafydd am ymdrechu i wneud het.

Amser cinio roedd y cinio yn wych, moron, stwffin, twrci, pys a grefi, a hufen iâ dyn eira yn bwdin. Roedd y neuadd yn orlawn o blant a'r hetiau yn fôr o liw.

Yr wythnos wedyn daeth Siôn Corn i'r ysgol yn eistedd mewn trol a cheffyl yn ei dynnu.

Mae adeg y Nadolig yn amser prysur ond arbennig iawn. Cawsom hwyl garw yn ysgol Waunfawr eleni.

Diolch Mrs Dafydd!!

*Catrin Owen, Bl.6*

**Digwyddiadau'r Nadolig**

Rydym fel ysgol wedi bod yn brysur y Nadolig yma, wedi gweithio'n galed ond wedi cael llawer o hwyl hefyd.

I ddechrau derbyniodd yr ysgol grant o £3,000 o bunnoedd fel bod yr artist, Heather Lowe, yn gallu gweithio gyda phlant yr ysgol bob dydd Iau am gyfnod hir. Mi ddechreuodd hi gyda Blwyddyn 6 ac mi wnaethom ni furlun sidan. Mae'r murlun yn dangos adeiladau ac ardal Waunfawr, erbyn hyn mae'r murlun i fyny yn y neuadd ac mae o'n edrych yn gret!

Daeth Siôn Corn i'r ysgol mewn trol a cheffyl yn ei dynnu a cafodd pawb anrheg am ganu iddo.

Mi gawsom ni hefyd gystadleuaeth gwneud het Nadolig. Roedd pawb wedi trio eu gorau ac roedd yna Siôn Corn, dyn eira a hyd yn oed pwdin Dolig ar ben yr hetiau lliwgar.

Mi wnaeth Anti Sylvia, Anti Eluned ac Anti Sarah ginio Dolig blasus i ni i gyd. Roedd yna fwy o blant yn cael cinio y flwyddyn yma nag erioed.

Cymerodd pawb ran yn ein sioe Nadolig. Roedd hogyn a hogan yn chwilio am seren arbennig a gwelsant Harri Potter, Gorilas, Gavin Henson a hyd yn oed X Factor ar eu taith. Roedd tymor y Nadolig yn dymor prysur iawn i bawb ond yn llawn hwyl.

*Jamie Anderson, Bl.6*

**Chwilio am Seren**

Roedd y sioe 'Chwilio am Seren' yn llawer o hwyl. Y prif gymeriadau oedd Shona a Jamie o Flwyddyn 6 (dyma'r ddau blentyn oedd yn chwilio am y seren). Yn y sioe roeddym yn canu caneuon fel Amarilo, Deffra, deffra, S Club 7, Harri Potter a James Bond. Yr X Factor oedd fy ffefryn i, gan mai fi oedd Chico! Roedd fy chwaer, Annest, yn actio fel angel (bechod nad ydy hi ddim fel'na adref!) Ar ddiwedd y sioe cawsom ddisgo gan y grŵp Dynamics. Bu'n dymor prysur iawn ond gwerth chweil.

*Gareth Wyn, Bl. 6*

**Tymor y Nadolig yn Ysgol Waunfawr**

Teitl sioe Nadolig Ysgol Waunfawr eleni oedd 'Chwilio am Seren'. Stori oedd hon am ddau blentyn yn chwilio am seren arbennig. Y ddau brif gymeriad oedd Shona Morris a Jamie Anderson o Flwyddyn 6. Bu pawb wrthi'n brysur yn paratoi am y sioe yn dysgu geiriau a chaneuon.

Roedd y ddau brif gymeriad yn chwilio am sêr, bu'r ddau gyda X Factor, James Bond, Charlotte Church a Gavin Henson yn ogystal â thîm rygbi Cymru. Roedd y caneuon yn arbennig, ac roedd y plant yn mwynhau canu caneuon cyfarwydd fel Hei dol, Chico Time, James Bond a Harry Potter.

Roedd y cefndir yn lliwgar, diolch i'r mamau fu'n helpu.

Hon oedd y sioe orau erioed yn Ysgol Waunfawr. Biti na fydda i yma Dolig nesaf! Fe fwynheais i y sioe yn fawr iawn. Diolch i'r athrawon ac i bawb a ddaeth i weld y sioe.

*Rosie Brown, Bl. 6*

* * *

Rydym fel ysgol yn dymuno'n dda i Nesta Doughty a fydd yn treulio mis o ymarfer dysgu gyda Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 3, ac i Gillian Williams a fydd yn dysgu Blwyddyn 1 am gyfnod o chwe wythnos yn nosbarth Miss Mandy Roberts.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm pêl-rwyd a fu'n cystadlu yn Nhwrnament Pêl-rwyd yr Urdd ddydd Sadwrn, 14 Ionawr, ym Mhlas Silyn, Pen-y-groes. Chwaraeodd y genod 5 gêm i gyd: ennill 3, cyfartal mewn 1 a cholli o un gôl i ddim i Bontnewydd yn y bumed gêm. Da iawn chi a phob lwc yn Nhwrnament Ysgolion y Sir y mis nesaf. Diolch i Mrs Sioned Parry, Miss Mandy Roberts a Miss Gillian Williams am eu hyfforddi.

Rydym yn falch o weld Anti Margaret yn ôl yn y gegin wedi ei llawdriniaeth a diolch arbennig i Anti Sera a fu'n gogyddes dros dro. Cyflwynwyd blodau iddi fore dydd Gwener, 20 Ionawr.

Dymunwn hefyd wellhad buan iawn i Anti Tracy.

CLWB 300. Dyma restr enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr:
£40: Dr Prys M. Jones, Pant Cae Haidd; £25: Ms Carmon Pierce, Snowdonia Park Hotel; £10: Mrs Pritchard, 9 Bro Waun.

**MEWN BOCS PLIS**

DYMUNA Eurwyn a Pearl Williams ddiolch i'w holl gwsmeriaid ym mro'r Eco am eu cefnogaeth tra buont gyda Chwmni Betterware. Diolch yn fawr iawn.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 3 Ionawr, mwynhaodd yr aelodau ginio Nadolig blasus yn y Bistro, Llanberis. Diolchwyd i staff y Bistro ac i Mrs Hilda Williams ac Ann Williams am wneud y trefniadau gan y Llywydd, Mrs Catherine Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf brynhawn Iau, 2 Chwefror, pryd y bydd aelod o'r gwasanaeth Ambiwlans Awyr yn sgwrsio am y gwasanaeth.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r gangen.

NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

YR URDD. Mae cyfarfodydd yr Urdd i blant rhwng 7 ac 11 oed wedi ailgychwyn ar ôl gwyliu'r Nadolig. Cafwyd noson fywiog o Bingo i gychwyn y tymor. Aeth y genethod sydd yn aelodau o'r tîm pêl-rwyd i gystadlu yn Nhwrnament Rhanbarth Arfon a gynhaliwyd ym Mhlas Silyn, Pen-y-groes. Cafwyd gêm dda ac aethant drwodd i'r rownd gyn-derfynnol. Mae'n brofiad i'r genod gael cystadlu fel hyn a chyfarfod ac aelodau'r Urdd o ganghennau eraill.

Dymuna aelodau Pwyllgor yr Urdd a'r rhieni ddiolch i athraon yr ysgol am roi eu hamser i hyfforddi'r tîm ac am eu cludo i Ben-y-groes ac yn ôl dydd Sadwrn, 14 Ionawr.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Lun, 9 Ionawr yn y Ganolfan pryd y cafwyd sgwrs a ffilm ddiddorol iawn gan Mrs Gwen Jones, Llanrug, un o'r aelodau, ar fywyd a gwaith ei mam, Mrs Gwen Bayliss.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 13 Chwefror, pryd y ceir sgwrs gan Dr Berwyn Owen. Gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd.

GENEDIGAETHAU.
Llongyfarchiadau i Yvonne a David Beech, Rose Mount, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Catrin Bronwen, i Andrew a Judith.
Merch fach, Serena, a annwyd i Avril a Dylan a daeth Anwen a Richard Charge, Llifon, yn nain a thaid am y tro cyntaf.
Ganwyd merch fach, Alaw, i Bethan a Dylan, 6 Ael y Bryn, chwaer fach i Erin ac wyres fach i Chris ac Arnold, 10 Bryn Golau.
Llongyfarchiadau i'r ddau deulu ac i Mrs Jini Roberts, 9 Bryn Golau sydd yn hen nain i'r ddwy fach.

YMDDEOLIAD. Dymunwn yn dda i Mrs Irene Roberts, Pant Teg, ar ei hymddeoliad o'i swydd dysgu yn Ysgol y Garnedd, Bangor.

DIOLCH. Dymuna staff Syrjyri Waunfawr a Llanrug ddiolch o galon am y caredigrwydd a dderbyniasant dros Wyl y Nadolig. Dymunant Flwyddyn Newydd Dda i bawb ym Mro'r Eco.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Robin Williams, Bryn Difyr adref o Ysbyty Gwynedd ble y bu yn derbyn triniaeth. Hefyd croesawn Mrs Mavis Allan, Pen y Bont adref wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan ichi.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Gracie Roberts, Bryn Golau, sydd wedi ymgartrefu yng Nghartref Preswyl Maesincla yng Nghaernarfon.

YNYR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Jeni Jones, Glyn Ceris, sydd yn yr ysbyty ym Mangor wedi derbyn llawdriniaeth.

DIOLCH. Dymunaf ddiolch i Olwen, Llidiart Wen a Marian, Y Foel, am roi eu hamser i blygu rhifyn y Nadolig o'r Eco. Diolch hefyd i ferched Llanrug am y baned a'r mins pei ar hanner amser y plygu.

CYMDEIMEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Dr Huw Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Dr Roberts yn ddiweddar.

Daeth y brofedigaeth o golli ei dad i ran Mr Eurwyn Thomas, Stad Tref Eilian. Cydymdeimlwn ag ef ac a'r hogiau yn eu profedigaeth o golli taid.

Yn frawychus o sydyn yn Ysbyty Gwynedd bu farw Sharon Williams o Fethel. Chwaer i Terry, Yvonne, Beti a Dylan a'r diweddar Andrew a Brian Parry.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu yma ym mhentref y Waun yn eu profedigaeth drist o'i cholli.

PLAID CYMRU. Penderfynodd cangen y Blaid ar y rhaglen ganlynol i'r flwyddyn newydd:
Sadwrn, 5 Mawrth: Noson Gŵyl Ddewi anffurfiol (i apelio'n arbennig at ieuenctid);
Nos Wener, 9 Mehefin: Taith gerdded o gwmpas Llanfrothen yng ngofal Rhys Jones (gorffen yn y 'Ring');
Sadwrn, 22 Gorffennaf: Barbeciw yn y Frenni;
Sadwrn, 11 Tachwedd: Noson Gyri.

Cytunwyd i neilltuo nosweithiau gwleidyddol y gangen i waith canfasio ar ran ymgeiswyr y Blaid yn y Cynulliad a Senedd Llundain.

Bydd croeso i bawb sydd heb fod yn aelodau i ymuno yn y nosweithiau cymdeithasol, neu hwyrach i ymuno â Phlaid Cymru drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Aelodaeth, Beryl Jones, Dolcoed (650345).

GWELLHAD BUAN. Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Lorna Parry, Cae Rhos. Hyderwn dy fod yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth. Hyderwn hefyd fod Marian Jones, Teras Eilian, yn gwella wedi iddi syrthio a thorri ei braich.


**Tŷ Gwledig Meifod** Bontnewydd

*'Dewch yn gynnar i elwa o gynnig arbennig'*

Cinio o 4.00 y.h. – tan 6.00 y.h.
Dydd Llun i ddydd Gwener
1 Cwrs – £6.95 • 2 Gwrs – £8.95 • 3 Chwrs – £10.95
Prydau bar ar gael hefyd
wedi gweini o 12.00 y.p. tan 9.00 y.h.
*(Bwydlen newydd wedi ei chyflwyno)*


Nawr mae'r hydref wedi cyrraedd a'r gaeaf rownd y gornel cymerwch fantais i fwynhau ein cynnig arbennig yma mewn awyrgylch glyd a chynnes o flaen y tân agored.

*Cysylltwch â ni am fanylion pellach ar* 01286 673351

# CHWILOTA

## COFEB
## CAPEL EDGE LANE
## LERPWL

**Yn rhifyn Rhagfyr o'r *Eco*, ysgrifennais am y teulu o Gwm y Glo oedd yn chwilio am wybodaeth ynglŷn â chofeb i filwyr a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae llun o'r gofeb ym meddiant y teulu, ond yn anffodus, doedd dim sicrwydd ble roedd y gofeb. Roedd amheuaeth mai perthyn i eglwys Gymraeg yn Lerpwl yr oedd. Bellach, cafwyd cadarnhad mai Cofeb o eiddo Capel Cymraeg Edge Lane, Lerpwl ydyw.**




*Cerdyn post a anfonwyd i 'Owen Jones bach' oddi wrth ei 'Uncle Now', sef Owen E. Morris.*

Daeth y wybodaeth gan Mr Owie Jones, Caernarfon, un sydd eisoes wedi cyfrannu gwybodaeth am ardal Dinorwig i'r golofn hon. Eglurodd fod llun o'r gofeb ganddo yntau hefyd, ond ei fod wedi ei drosglwyddo i ofal yr Archifdy yng Nghaernarfon. Daeth y llun i'w feddiant oherwydd fod aelod o'i deulu yntau hefyd wedi ei goffáu ar y gofeb, sef Owen E. Morris, a fu farw ar faes y gad yn Ffrainc ym mis Gorffennaf 1918. Roedd Owen Morris yn ewythr i Mr Owie Jones, ac y mae yn ei feddiant, gerdyn a anfonwyd iddo ddiwedd Rhagfyr 1916 o Ffrainc, yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda. Roedd y teulu bryd hynny yn byw yn Brittania Avenue, Wavertree, Lerpwl.

Mae ym meddiant Mr Jones hefyd, gerdd goffa a ysgrifennwyd i'w ewythr gan Lewis Moelwyn Jones, Ffestiniog. Deallaf fod yr awdur wedi cyhoeddi llyfryn bychan o gerddi coffa i wahanol Gymry a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Mawr. Mae'n gyfrol eithriadol o brin bellach, a hyd yma, methais â chael gweld copi ohoni.

Brodor o Garmel oedd Owen E. Morris, mab hynaf Eleazar a Jane Morris, Bronygadair.

Mae Capel Edge Lane, Lerpwl wedi cau ers rhai blynyddoedd, ond tybed ble cadwyd y gofeb? A gafodd ei throsglwyddo i un o gapeli Cymraeg eraill y ddinas? Bwriadaf gysylltu â phapur bro Glannau Mersi a Manceinion – *Yr Angor* – i geisio mwy o wybodaeth am y gofeb ac am deuluoedd rhai o'r bechgyn a goffeir arni. Ond os oes eraill o'r darllenwyr â chysylltiadau â Lerpwl, yna rhowch wybod.

Gyda diolch i Mr Owie Jones am ei ymateb, ac am ei gyfraniadau i'r golofn.


**Atgofion am y Ceunant**
Yn rhifyn Nadolig/Ionawr soniais am wybodaeth a ddaeth i law ynglŷn â llyfr Saesneg yn sôn am deulu o Birmingham a dreuliodd ran helaeth o'r Ail Ryfel Byd yn Marvista, Ceunant. Hyd yma, does neb wedi cysylltu i ddweud eu bod yn cofio genethod o'r enw Christine, Nannette, Pamela a Diana. Mae'n ymddangos hefyd, mai llyfr wedi ei gyhoeddi'n breifat yw *Song of Love and Songs of Longing*, ac yr wyf yn parhau i ddisgwyl am gopi a archebwyd cyn y Nadolig.

**Enw Dieithr**
Ymddiheuriadau i Hywyn Williams o Brestatyn am ei alw'n Hywel. Mae'n gwneud gwaith ymchwil i deuluoedd y bechgyn a goffeir ar gofebau ardal Dinorwig, Deiniolen a Phenisarwaen. Ef a gyfeiriodd at yr enw 'Bwlch y Meitherw' neu 'Fwlch y Meithenw' yn ardal Fachwen/Dinorwig. Methais â chael cyfle hyd yma i ymweld â'r Archifdy yn y Brifysgol i geisio mwy o wybodaeth.


**Mis Llwm**
Mae Ionawr yn draddodiadol llwm yn dilyn danteithion y Nadolig, a dyna fu hanes y golofn hon hefyd. Prin iawn fu'r ymatebion na'r ymholiadau, a phrin fu'r amser i minnau hefyd chwilota am wybodaeth newydd. Ond mae gobaith y mis nesaf y cawn hanes brodor o Lanrug a wnaeth enw iddo'i hun ym myd meddygaeth.

Yn y cyfamser, blwyddyn newydd ymchwilgar i chi oll, a chofiwch anfon pwt o wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn 01286 673515).

*Coffâd Owen E. Morris, a'r gerdd gan Lewis Moelwyn Jones.*

**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**


**Er Serchog Goffadwriaeth**
AM



**PTE. OWEN E. MORRIS,**

MAB HYNAF ELEAZAR OWEN A JANE MORRIS,
BRONYGADAIR, CARMEL,

*Yr hwn a fu farw o'i glwyfau ar faes y frwydr yn Ffrainc, Gorphenaf 8fed. 1918.*

**YN 25 MLWYDD OED.**

Nid oes alaw, nid oes telyn,
Heb ei chwerw dant,
Chwilio hen rodfeydd y Cilgwyn
Wnes am un o'r plant;
Ni chaf gân gan Owen yno
Rhwng hen fryniau'r fro
Namyn cri y gwynt yn cwyno,
Ar ei dro.

Gwag yw aelwyd brudd Brongadair,
Heb ei wenau mwyn;
Hiraeth ardal sy'n cyniwair
Heddyw trwy bob llwyn;
Canu gartref wnawn alargerdd
Ar ein mwynaf gainc,
Am mai'i gartref ef yw cochwerdd
Ddaear Ffrainc.

Llawer orig ddifyr dreuliais
Yn ei gwmni llon;
Nid oedd sedd i ddig na malais,
Yn ei ddidwyll fron;
Ni chadd brad na dichell aelwyd
Yn ei galon gref,
Estron ydoedd deigryn bywyd
Iddo ef.

Ar lechweddau gwyrddion Carmel,
Dim ond hiraeth gwyd;
Suo'r enw wna yr awel,
Heibio'r clogwyn llwyd;
Blodau'r gwanwyn gafodd yno'n
Balmant dan ei droed,
Cadwodd noswyl yn yr allfro'n
Ngwanwyn oed.

Un o syml blant y werin
Yn ein bro oedd ef;
Ffyddlon fu i'w wlad a'i frenin
Yn y dymhestl gref;
Oni welwyd rhos a blodau'n
Tyfu ar ei daith,
Erys cof am ei rinweddau
Amser maith.

Perchid ef ar lywbrau'r chwarel
Am ei galon rydd,
Adlewyrchai 'i fywyd tawel,
Yn ei waith bob dydd;
Os gonestrwydd fedr hawlio
Coron yn y nef,
Nid gormodiaith dweyd mai yno
Mae efe.

*Ffestiniog.* LEWIS MOELWYN JONES

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

**Llwybrau Cyhoeddus**
Bwriedir gwella cyflwr y llwybrau yn ystod y flwyddyn. Os oes gennych gŵyn neu sylwadau, gofynnir i chwi gysylltu â'ch Cynghorydd lleol neu â'r clerc, John B. Jones, Ceris, Deiniolen LL55 3LU (01286 871 416)

Cofiwch hefyd am gystadleuaeth yr Ardd orau.

* * *

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cyngor ar y 6 Ragfyr a 3 Ionawr.

**Materion o'r cofnodion**
Atebion Adran Priffyrdd Gwynedd:
**Gerlan, Clwt y Bont** – ni allant osod blwch halen ar eiddo preifat, dŵr o gae cyfagos sy'n achosi'r perygl o rew. Penderfynwyd cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â hyn a dweud wrth yr adran Briffyrdd bod lle i flwch yn y rhan o'r ffordd a ledwyd.
**Lôn Rhiwlas** – gwnaed cais am gyllid ychwanegol i roi wyneb uwch ar y lôn ac y mae'r Uned Draenio Tir yn archwilio'r safle gyda'r gobaith o gael y tirfeddianwyr i sylweddoli eu dyletswyddau.
**Tal y Waun, Deiniolen** – trefnir i lanhau'r draeniau yma.
**Ger Cartref yr Henoed, Penisa'rwaun** – bydd yr Uned Draenio Tir yn cysylltu â'r tirfeddianwyr.
**Garth Fawr i Fodolydd** – mae angen uwchraddio cwlfert cerrig yma, gosodir y gwaith ar raglen y Cyngor ond ni ellir rhoi dyddiad pendant ar hyn o bryd oherwydd yr holl waith yn dilyn llifogydd.
**Tan y Gaer, Pont Rhythallt** – bwriedir ymestyn y system ddraenio i ddelio â'r llif.
**Cae chwarae, Rhiwlas** – penodir contractiwr i atgyweirio'r wal derfyn.
**Clwt y Bont** – Atgyweiriwyd y golau ger y cae chwarae. Gosodir lamp ar bolyn Manweb ger maes parcio yr Hen Felin.
**Trem Eilian, Bryn'refail** – Derbyniwyd ateb Dŵr Cymru ynglŷn â charthffosiaeth yn llifo i'r lôn – 'eu bod wedi dod o hyd i orlif carthffosiaeth cyfunol, a gafodd ei gau o bosibl yn ystod gwaith a wnaed gan asiant blaenorol Dŵr Cymru yn y gorffennol.'

Addawyd cadarnhâd o'r canlyniad o fewn wyth wythnos.

**Rêfs a drefnir yn Ninorwig**
Ateb y Rhingyll Peter Jones (1286) yn gofyn i'r Cyngor benodi dau aelod o'r gymuned i gysylltu ag ef (01286 673333, Est 5248) pe baent yn gwybod ymlaen llaw am y trefniant, neu i roi rhifau cerbydau ar ôl iddynt gyrraedd. Phylip Jones i drefnu. Bydd cynllun yn cael ei baratoi ar gyfer achlysur o'r fath. Gellir hefyd cysylltu ag Eirwen C. Roberts, Cyngor Gwynedd (01286 682 839).

**Ysgol Bethel**
Cytunodd Merfyn Morris i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd y Llywodraethwyr.

**Gohebiaethau Eraill**
**Llifogydd.** Penderfynwyd pwyso eto ar yr awdurdodau i wella'r sefyllfa yng Ngallt y Foel a Dinorwig.
**Afon Cegin.** Mae'r rhan o'r gors wedi ei chlirio, angen gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd bwyso ar dirfeddianwyr eraill ymhellach i lawr yr afon i wneud yr un peth.
**Lôn Winllan.** Angen torri coed wrth ochr y ffordd.
**Teithwyr.** Wedi cyrraedd Bethel ac yn y chwarel rhwng Fachell a Tŷ Mawr. Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â pherchnogaeth y chwarel.

**Awdurdod yr Heddlu**
**Diwygio'r heddlu yng Nghymru.** Cyflwynwyd eu hadroddiad a thrafodwyd y bwriad. Angen penaethiaid Ardal er ymateb prydlon. Penderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad o brif swyddfa arall yn diflannu i Gaerdydd.

**Llyn Cwellyn**
Penderfynwyd cwyno i'r Bwrdd Dŵr am y digwyddiad ger Llyn Cwellyn a sicrhau eu bod yn digolledu'r ardalwyr.

**Cynllunio**
**Adeiladu tŷ, Monfa, Bryn'refail:** Danfonwyd y sylwadau canlynol i'r Adran Gynllunio:

1. Llifogydd. Mae'r dŵr eisioes wedi codi i dai yn yr ardal, felly mae perygl y byddai adeilad ychwanegol yn cyfrannu at godiad pellach yn lefel y dŵr. Roedd o fewn ychydig iawn i fynd i mewn i Pen-Llyn yn ystod y llifogydd diwethaf.
2. Bwriedir gosod *Septic tank* yno. Byddai hwn yn amharu ar yr amgylchedd.
3. Buasai'r fynedfa yn rhannu â mynedfa Pen-Llyn, ni fuasai hynny yn dderbyniol.

Er hyn, caniatawyd y cais. Penderfynwyd gwneud ymholiadau.

**Adeiladu 3 thŷ – Y Bedol, Bethel:** Danfonwyd y sylwadau canlynol i'r Adran Gynllunio. Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais uchod am y rhesymau canlynol:

1. Buasai'r datblygiad yn lleihau'r maes parcio, gyda'r canlyniad posibl o geir yn parcio yn y ffordd fawr ac yn yr ystad dai dros y ffordd yn ystod adegau prysur y dafarn.
2. Mae problemau dŵr gwyneb wedi bodoli yn y lleoliad yma ers amser.
3. Mae'r fynedfa'n gul i ffordd brysur, buasai mwy o drafnidiaeth yn risg ychwanegol.

**Ty'n 'Rardd, Bryn'refail.** Newid defnydd o anecs i uned breswyl. Derbyniwyd rhybudd o Apêl ynglŷn â gwrthodiad Gwynedd i'r cais.

**Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:**
Estyniad: 36 Bro Eglwys, Bethel.
Dymchwel ac ailadeiladu modurdy: Ger Tŷ Newydd, Bethel.
Estyniad: Llainfor, 114 Cae Glas, Rhiwlas.
Estyniad: 8 Teras Cae Rhos, Seion.
Adeiladu modurdy: Llys Alaw, 18 Stad Eryri, Bethel.
Estyniad: Ysbyty, Fachwen.
Addasu adeilad allanol yn dŷ: Waen, Rhythallt, Llanrug.
Estyniadau i Tŷ Newydd Waun, Penisa'rwaun; Hen Orsaf yr Heddlu, Deiniolen; Ysgol Bethel; Rheilffordd Llyn Padarn, Gilfach Ddu, Llanberis.

**Ceisiadau a wrthodwyd gan Wynedd:**
Ael y Garth, Nant y Garth: Diddymu'r amod o ganiatâd sy'n cyfyngu defnydd yr eiddo i weithiwr amaethyddol.
Addasu adeiladau: Parciau Rhos, Llanddeiniolen.
Adeiladu dau dŷ: 63/81 caeau Gleision, Rhiwlas.
Estyniad: Llys Ifor, Saron, Bethel.
Adeiladu tŷ ger Modurdy Beran.

**Llwybrau**
**Atebion Gwynedd**
*Llwybr Marchog Pen y Bryn i Tan Dinas*: ateb yr Adran Briffyrdd bod archwiliad eisioes wedi ei wneud a bod trefniant i gontractiwr dorri'r coed ayyb o fewn yr wythnosau nesaf.
*Llwybrau Bethel*: archwilir cyflwr y rhain yn fuan.
*Pont Charlie, Bethel*: gosodir giât yma i rwystro anifeiliaid.
*Llwybr 93, Rhos Wian, Penisa'rwaun:* mae archwiliad ar y gweill, daw ateb yn y dyfodol agos.
*Cae Meta i Ty'n Berth a Tai Arthur i Rhos Wian:* wedi cau – llythyr i Wynedd.

**Adroddiadau**
**Llifogydd ym Mhen Llyn**
Derbyniodd Pat Jones gŵyn bod First Hydro yn gollwng dŵr, yn anghyfrifol, i Lyn Padarn yn ystod llifogydd. Trefnwyd cyfarfod rhwng Pat Jones, y Clerc Mike Hichey, a Sue McClaren o First Hydro. Dyma ganlyniad y cyfarfod:

I Lyn Peris y gollyngir y dŵr o Marchlyn Mawr pan yn cynhyrchu trydan ac o'r llyn hwnnw y pwmpir y dŵr yn ôl pan na fo galw am drydan i'r rhwydwaith.

Maent yn medru cadw mwy o ddŵr yn Llyn Peris yn ystod llifogydd.

Cynnwys arferol Llyn Peris yw 7 miliwn medr ciwb ond yn ystod llifogydd cedwir i fyny i 9.3 miliwn ciwb ynddo, a'i adael allan yn raddol pan fo'r llif trosodd. Mae Llyn Peris yn gyfrifol o ddal 103.3 miliwn medr ciwb ar y mwyaf.

Cynhelir cyfarfodydd ddwy waith y flwyddyn rhwng First Hydro ac Awdurdod y Pysgodfeydd, Parc Gwledig Padarn, Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Cyfarfod Blynyddol Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd (28 Tach.)**
Y pynciau dan sylw oedd:

1. Trefniadaeth Ysgolion.
2. Priffyrdd.
3. Wardeiniaid Parcio.
4. Tai Fforddiadwy

Cafwyd adroddiad llawn gan Miss Phyllis Ellis yng nghyfarfod Rhagfyr a derbyniwyd, yn unfrydol, ei sylwadau fel adwaith y Cyngor i Gyngor Gwynedd.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

DOSBARTHIADAU NOS. Erbyn hyn y mae'r dosbarthiadau Cynghaneddu wedi dechrau. O dan arweiniad Karen Owen mae'r dosbarth yn cyfarfod yn Y Bedol bob yn ail nos Fercher. Yr oriau yw 8pm tan 10pm. Mae'r ymateb yn dda gyda aelodau o bob rhan o'r Fro. Y mae'r pwyslais ar ddysgu ac ymarfer y cynganeddion – felly wedi ei anelu at y dysgwr. Y mae awyrgylch braf yno, ac mae croeso i unrhyw un ymaelodi. Y pris yw £25 am y gyfres o 8 gwers.

Dyma bris sefydlog cyrsiau o'r fath. I geisio ennyn diddordeb, gall unrhyw ddisgybl ysgol ymuno â'r grŵp yn ddi-dal. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Chwefror 1af. Galwch draw.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Rhys Hughes, Erddig, ar lwyddo mewn arholiad chwythu'r cornet, Gradd 8, ac i Laura Owen, 44 Bro Eglwys, ar lwyddo gyda theilyngdod mewn arholiad canu'r piano, Gradd 1.

NOSON ARBENNIG

Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

CLWB BRO BETHEL. Gareth Griffiths, Rheolwr Diogelwch Gogledd Gwynedd Gwasanaeth Tân ac Achub oedd y siaradwr yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd. Yn dilyn croeso gan y Llywydd, Goronwy Jones, cafwyd sgwrs yn llawn gwybodaeth, yn bennaf, ar sut i fod yn ymwybodol o unrhyw beryglon o gwmpas y tŷ a fuasai'n achosi tân. Talwyd y diolchiadau gan Jenkin Griffiths.

Dalier sylw mai yn Festri Bethel y bydd y cyfarfod nesaf, yng nghwmni Helen Jones, Caernarfon, a hynny ar 7 Chwefror am 2.00 o'r gloch.

CYSEGR. Daeth cynulleidfa deilwng i Wasanaeth Cymun bore'r Nadolig eto eleni, o dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Dafydd Hughes, a chymerwyd rhan gan aelodau Capeli yr ardal. Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan y gweinidog a diolchodd hefyd i bob un am eu parodrwydd i gymryd rhan. Beti Owen yn cynrychioli Capel Bethel, ledIodd y garol gyntaf, ac yna cafwyd darlleniad gan Jenkin Griffiths a gair o weddi gan Richard Lloyd Jones, y ddau o Gapel y Cysegr. Ar ran Capel Seion, lediodd Carys Williams garol arall. Cymerwyd rhan ymhellach gan ddau o'r Cysegr, sef Geraint Elis yn darllen detholiad o 'Dilyn y Golau' gan Dic Jones a Dafydd Emrys yn ledio carol. Fel arweiniad at fwrdd y Cymun chwaraeodd Glenys Griffiths, yr organydd, Ave Maria gan Caccini, ac yna rhannwyd yr elfennau gan Glyn Roberts a Geraint Elis.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Dr Mererid Owen oedd y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Gymdeithas, ac roedd nifer dda o'r aelodau wedi troi allan i wrando ar sgwrs ddiddorol iawn am ei thaith gerdded i Mecsico. Roedd pawb ar y daith yn cefnogi yr elusen *Breakthrough Breast Cancer* a chafwyd braslun o'r hanes yn arwain i fyny i'r daith ar sut y bu i Dr Mererid gasglu arian drwy nifer o weithgareddau dros gyfnod o amser. Nod i bob cerddwr oedd casglu £2,500 ond fe lwyddodd Dr Mererid i godi dros £11,000. Gyda chymorth sleidiau gwelwyd lluniau o'r wlad a thrigolion ambell bentref a chafwyd hanes y daith o ddydd i ddydd. Diolchwyd iddi am noson gartrefol braf gan Joyce Roberts.

Y Prifardd Selwyn Griffith, Penisarwaun, fydd y siaradwr yn y cyfarfod nesaf, sydd yn cael ei noddi gan yr Academi, a hynny ar nos Fawrth, 21 Chwefror, yn Festri Bethel.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Victoria, Llanberis, nos Fercher, 14 Rhagfyr. Ar ôl cinio blasus mwynhawyd gyrfa chwist a drefnwyd gan y Llywydd, Sian Davies. Pencampwyr y cardiau ac felly enillwyr gwobrau'r gêm oedd Mair Price ac Eirlys Sharpe. Enillwyr y gwobrau raffl, a roddwyd gan y Swyddogion, oedd Nora Parry, Eryl Roberts, Eirlys Williams, Mair Price, Joyce Roberts a Mair Read. Nid aeth neb adref yn waglaw, fodd bynnag, gan i'r Trysorydd, Edwina Morris, drefnu bod pob aelod yn derbyn rhodd fechan, a chafodd pawb hefyd gerdyn Nadolig a wnaed gan y Llywydd. Diolchwyd i bawb a gynorthwyodd i drefnu'r noson.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, 11 Ionawr. Dymunodd y Llywydd, Sian Davies, flwyddyn newydd dda i bawb. Llongyfarchwyd Siôn Elwyn, mab Deilwen Hughes, ar ennill Tlws y Llenor (Uwchradd) yn Eisteddfod Bethel. Diolchwyd i Edwina Morris am y rhoddion ar gyfer y Cinio Nadolig. Llongyfarchwyd Alys Jones ar enedigaeth ei hŵyr, Siôn Dafydd.

Gwraig wadd y noson oedd Gemma Jones, Llanrug. Daeth â pheiriant i ddadwenwyno'r corff gyda hi ac eglurodd sut roedd yn gweithio i wneud lles i'r corff. Yr aelod a ddewiswyd i roi ei thraed yn y dŵr a chael triniaeth ar y noson oedd Gwyneth Jones a diolchodd hi i Gemma Jones a dymunodd yn dda iddi ar y fenter. Gwyneth hefyd oedd enillydd y raffl. Ellen Ellis a Nora Parry oedd yn gofalu am y baned. Cafwyd noson ddymunol a chymdeithasol i ddechrau'r flwyddyn newydd.

Y mis nesaf cynhelir noson o ddawnsio llinell gyda Lisa Spaull.

DIOLCH. Dymuna Mrs Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas, Gwyn, Nia a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chynhaliaeth, boed yn ymweliadau, galwadau ffôn neu gardiau cydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl iawn, Elfyn Parry. Derbyniwyd rhoddion o £950 i Cymorth Cristnogol er cof amdano.

Diolch arbennig i'r Parchedigion Gwynfor Williams, Angela Williams a Mr Robin Coetmor Williams am eu gwasanaeth. Hefyd i aelodau Eglwys Pisgah am eu holl gymwynasau, ac am drefniadau personol ac urddasol Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaun.

ADRAN YR URDD. Pob dymuniad da i Gethin Jones o flwyddyn 4 fydd yn cynrychioli Eryri yn y Gala Nofio Cenedlaethol yn Abertawe ar ddiwedd mis Ionawr. Llwyddodd i ddod yn gyntaf am nofio ar y cefn a daeth hefyd yn drydydd am nofio broga yng Ngala Nofio yr Urdd ar ddiwedd mis Tachwedd. Llongyfarchiadau hefyd i Iolo Hughes o flwyddyn 5 ar ddod yn ail am nofio broga i flynyddoedd 5 a 6. Da iawn chi, hogia.

I ddiweddu tymor prysur cafodd y plant gyfle i wneud addurniadau a chardiau Nadolig ar nos Fercher, 14 Rhagfyr. Diolch i'r rhieni fu'n cynorthwyo gyda'r Adran yn ystod y tymor.

Bu rhai o enethod Blwyddyn 5 a 6 mewn Twrnament Pêl-rwyd ar ddydd Sadwrn, 14 Ionawr. Fe chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda ac roedd pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr. Diolch i Bethan Roberts am eu hyfforddi.

Bydd plant yr Adran yn dechrau ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod yn yr wythnosau nesaf. Mae cryn ddiddordeb ymysg y plant a gobeithio y bydd cynrychiolaeth dda o'r Adran yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail ar ddechrau mis Mawrth.

Bydd cyfle i'r plant fwynhau noson yn yr Hwylfan ar ddechrau Chwefror. Maent eisoes wedi mwynhau sesiwn o gemau bwrdd a noson cwis.

UWCH ADRAN YR URDD. Aeth aelodau'r Uwch Adran i Gig gyda Frizbee yn yr Octagon ar 29 Tachwedd. Cafwyd amser da iawn yng nghwmni pobl ifanc Eryri a Môn. I ddiweddu'r tymor aeth yr Uwch Adran i fowlio deg yng Nghanolfan Glasfryn, ger Pwllheli ar 20 Rhagfyr. Roedd y plant dipyn gwell na rhai o'r rhieni am fowlio! Diolch i'r rhieni ddaeth i gludo'r plant.

Aeth criw i'r Hwylfan ar nos Fercher, 11 Ionawr. Roedd yn gyfle i gymdeithasu ag aelodau o Uwch Adrannau eraill. Bydd y bechgyn a'r genethod yn cymryd rhan mewn twrnament Pêl-droed 5-bob-ochr ar ddiwedd y mis yn erbyn Uwch Adrannau eraill. Mae cryn edrych ymlaen.





Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

Quality Hotel Llanberis
QUALITY HOTEL
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

DIOLCH. Dymuna Carys a Dylan ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Alaw Wyn.

CYDYMDEIMLAD. Brawychwyd yr ardal gyda'r newydd trist am farwolaeth Alwyn a Shirley Roberts, 1 Minffordd, Brynrefail. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'u dau fab, Neil a Rodney, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

NOSON ARBENNIG
Cynhelir noson yng nghwmni'r bardd, Mererid Hopwoodd, yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30y.h. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd.

I sicrhau tocyn cysylltwch â Siân Davies (01248) 670685, neu Edwina Morris (01248) 670407 neu Alys Jones (01248) 670140.

YSGOL CWM-Y-GLO
Cawsom fis Rhagfyr prysur iawn unwaith eto eleni, gydag amryw o weithgareddau yn arwain at y Nadolig.

Roedd y neuadd yn llawn ar gyfer y Bingo, a drefnwyd gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Diolchwn iddynt am eu gwaith caled ar ran yr ysgol drwy gydol y flwyddyn. Diolch iddynt am drefnu parti Nadolig y plant gyda chonsuriwr i'w diddori a Santa yn ymweld gydag anrheg i bob un.

Cafodd pob plentyn gyfle i gymryd rhan yn y Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Tabernacl. Gwnaeth pawb ei waith yn dda a chafwyd noson hyfryd. Rhaid cofio hefyd brolio cinio Nadolig Anti Janet ac Anti Christine – roedd yn hynod o flasus.

Daeth cwmni pypedau Y Croesgodwyr draw i berfformio eu sioe 'Radio Bethlehem'. Roedd pawb yn meddwl ei bod yn sioe ddoniol a difyr.

Aeth Blwyddyn 3 a 4 draw i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i weld sut y byddai tai mewn gwahanol gyfnodau yn cael eu haddurno a chawsant gyfle wedyn i wneud gwaith celf ar gyfer y Nadolig.

Daeth Edward Jay i'r ysgol i gynnal gweithdy cerddorol. Mwynhaodd y plant y profiad yn fawr iawn a chafodd disgyblion yr Adran Iau gyfle i greu cerddoriaeth electroneg hefyd.

Daeth y Babanod yn ail yng nghystadleuaeth addurno moch coed yng Nghanolfan Arddio Fron Goch. Gwerthwyd y moch coed, gyda'r arian yn mynd at yr Ambiwlans Awyr, ac fe enillodd yr ysgol goeden Nadolig fach ddel.

Diolch o galon i bawb fu'n casglu talebau Tesco ar gyfer prynu offer chwaraeon. Derbyniwyd 8,421 ac rydym wedi archebu nifer o wahanol offer i'r ysgol.

Mae'r Urdd a Champau'r Ddraig wedi ailgychwyn – Hoci yw'r gweithgaredd y tymor hwn.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH. Dymuna Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar 14 Ionawr. Diolch yn fawr.

## Mabwysiadu Alun Ffred i'r Arfon Newydd

Daeth dau gant o aelodau Plaid Cymru i gyfarfod yng Nghaernarfon nos Wener, Ionawr 13, i fabwysiadu Alun Ffred Jones yn ddarpar ymgeisydd ar gyfer sedd newydd Arfon yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol y flwyddyn nesaf.

Mae Alun Ffred, sy'n byw yn Llanllyfni, yn cynrychioli'r Arfon bresennol ers yr etholiadau diwethaf yn 2003.

Yn sgil argymhellion y Comisiwn Ffiniau, bydd etholaeth bresennol Arfon yn diflannu, gyda Chaernarfon a'r cyffiniau yn uno ag ardaloedd Bangor a Dyffryn Ogwen i greu'r Arfon newydd, ac ardaloedd Pwllheli a Phorthmadog yn dod yn rhan o sedd newydd Dwyfor Meirionnydd.


**Am Offer Tŷ a Gardd...**
**FORMAG**
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**

**DODREFN PERKINS**
**(Safle'r hen Nelson)**
**CAERNARFON**
**Ffôn: (01286) 676 040**
- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

**Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern**
Yswiriant Cartref
Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
Yswiriant Teithio
Cynlluniau Angladd
Cyflenwadau Trydan a Nwy
Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:
Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
**01286 678310**
gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA
Mae *Age Concern Enterprises Ltd* wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr *Awdurdod Gwasanaethu Ariannol* (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU

**Perchnogion Newydd!**
yn parhau'r traddodiad gwych
**WAVELL'S**
London House, LLANRUG
Ffôn: **(01286) 673574**
**PEN CIGYDDION Y FRO**
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!**


Ar achlysur eu hymddeoliad dymuna

WAVELL ac ELIZABETH ROBERTS


a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd, a dymuno'n dda i'r perchnogion newydd,

BRYN ac ANGELA WILLIAMS

---

Dymuna Eco'r Wyddfa ddiolch i Wavell ac Elizabeth am gefnogi'r papur ers 30 mlynedd. Ymddangosodd eu hysbyseb ym mhob un o'r 330 rhifyn dros gyfnod o 30 mlynedd. Mwynhewch eich ymddeoliad!

# CROESAIR CHWEFROR



**Ar Draws**

1. Mae rhain yn symudol heddiw.
3. Gallwch edrych ar y sêr hefo un o rhain.
5. Mae pedwar o'r rhain ar eich car.
6. Cartref dros dro.
9. Gwyliwch hwn am lygaid sgwâr.
11. Tref Rufeinig yng Nghaernarfon.
17. Cewch olau a gwres o hwn.
18. Nid yw hwn yn hoff o wario.
19. Mae hwn rhwng Ynys Môn a'r Felinheli.
20. Roedd gan Jac y Do un o'r rhain ar ei ben.
21. Mae llawer yn gwylio hwn tra yn eu gwaith.
23. Cewch gerdded neu defnyddio trên i fynd i gopa'r mynydd yma yng Ngwynedd (-- -----).
26. Ffrwyth gyda chroen llithrig.
28. Bowns (anag.)
29. Adeiladwr castell Caernarfon.
32. Afon drwy Gaernarfon.
35. Nid oedd ystafell ar gael yma un tro.
38. Gôl-geidwad tîm Mr Picton.
40. Cewch rybudd gan Asiantaeth yr Amgylchedd am rhain.
41. Llyn ym Mlaenau Ffestiniog.
43. Glöyn byw.
45. Afon drwy Bontnewydd.
49. Aderyn gochfrest (----- ---).
52. Blew ar y gwyneb.
53. Mae angen defaid i gael hwn.
54. Traeth gyda maes awyr ger Caernarfon.
55. Afon drwy Fethesda.
56. Beth sydd angen yn y llys.


**I Lawr**

1. Cewch banned o de o hwn.
2. Cartref Syr Michael Duff.
3. Sbort Greg Rusedski.
4. Mae hwn yn waeth na'r brathiad gan lawer ci.
7. Llyn ger Llantrisant, Ynys Môn.
8. Afon drwy Bontllyfni.
9. Bydd llawer o'r rhain ar gael y Nadolig yma.
10. Y prif bwnc trafod ym Mhrydain.
12. Y gaeaf, y gwanwyn, yr haf neu'r hydref.
13. Cewch eistedd ar hon yn y parc.
14. Offeryn cerddorol gyda ifori.
15. Gwyddoniaeth y tywydd.
16. Cewch hyn i hon yn y goeden peren.
22. 'Rydych angen defnyddio'r gyffordd yma i fynd i Flaenau Ffestiniog.
24. Mae angen hwn i ddal pysgodyn.
25. Moby Dick.
27. Gwisgwch hwn i ddangos eich cefnogaeth.
30. Sbort Robert Key.
31. Mae'n bosib ailgylchu'r cynhwysydd yma, sydd wedi ei greu o dywod.
33. Os gwnewch hyn, yna bydd pawb arall yn gwneud hefyd.
34. Blodyn o Amsterdam.
36. Yr ail farnwr mewn gêm bêl-droed.
37. Mae llyfrgell yn llawn o rhain.
39. Cynheswr llaw.
42. Cynlluniwr y bont dros y Fenai.
44. Cewch deithio mewn un o rhain i fynd o Gonwy i Gyffordd Llandudno.
46. Gall rhain ddefnyddio dŵr neu wynt.
47. Melin gweithio gwlân.
48. Gwyn, coch neu rosé.
50. Mae'n bosib reidio hwn yn y tŷ a mynd i nunlle.
51. Mae'r heddlu'n gwneud hyn yn aml.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi ymddiheuro am y sillafu yng nghroesair Rhagfyr. Cefais fy nghywiro gan Dilys Pritchard-Jones o Abererch ynglŷn â sillafu'r gair 'cun', ia 'cyn' ydi hwn i fod ond mae'n amlwg oddi wrth yr atebion a gefais nad ydwyf fi'r unig un i feddwl mai 'cun' yw'r ffordd iawn i'w sillafu! Diolch Dilys, bydd rhaid cymryd mwy o ofal o hyn ymlaen.

Dychrynais pan ddisgynnodd yr amlen cyntaf (gan Nan Owen o Llanberis) drwy'r drws mor fuan â'r wythnos gyntaf yn Rhagfyr, gan feddwl bod y croesair wedi bod yn rhy hawdd. Wyth croesair gefais i gyd a dim un ohonynt yn hollol gywir ond Nan oedd yr agosaf i'w orffen yn gywir gyda dim ond un gair anghywir.

Rwy'n gobeithio y bydd y croesair yma yn eich cadw'n brysur am ychydig... Pob lwc a blwyddyn newydd dda i bawb.



# Drosodd i Ti Frawd

Wedi gosod sylfaen gadarn i'r tîm o'r dechreuad mae John Williams (John Cefn) wedi sefyll i lawr fel rheolwr tîm Bethel. Fel chwaraewr, cofir John yn chwaraewr egnïol, bob amser yn rhoi 100%. Un da i'w gael ar eich ochr mewn brwydr oedd John. Gwelwyd yr elfennau hynny ynddo fel rheolwr, ac yn amlwg roedd gan y chwaraewyr barch mawr iddo. Yn ystod ei reolaeth cipwyd sawl cwpan y Gynghrair, dyrchafiad i Gynghrair Gwynedd, a'r noson ryfeddol honno ar yr Oval pan gipwyd y 'Junior Cup' drwy drechu Porthmadog.

Gwnaed ymdrech hefyd i gynnal y cysylltiad o oedran ieuenctid y pentref i'r tîm hŷn. Y mae Owain Sion, erbyn hyn, yn un o chwaraewyr ganol cae gorau y Gynghrair, ac yn sicr yn arweinydd i'r dyfodol. Byddai John yn gwneud siŵr fod ambell i 'hen ben' yn y garfan hefyd i warchod datblygiad y 'cywion'. Er ei fod wedi gollwng yr awennau, rwy'n siŵr ei fod o hyd ar gael i gynorthwyo datblygiad y clwb. Diolch iddo am ei gyfraniad.

Y rheolwr newydd yw William Andrew Williams – brawd John. Dyma beth yw dyrchafiad – o lumanwr tawel i reolwr y tîm. Dyma un sydd â'i galon yn y clwb. Yno o'r cychwyn, bu'n bwyllgorddyn gweithgar, dyn torri gwair, a rhoi rhwydi i fyny. Ie, dyn i wneud y gwaith angenrheidiol yw Andrew.

A sôn am ddechrau i'w yrfa! Dechrau'r flwyddyn gyda buddugoliaeth dda yn erbyn Bontnewydd – un o'r ceffylau blaen – i ffwrdd. Yna'r rhediad rhyfeddol yn Nghwpan Her yr Arfordir. Buddugoliaeth wych yn y cawodydd eira draw yn Rhydymwyn. Yna, ar eu tomen eu hunain, curo Conwy o 3–1. (Y ddau dîm yma o gynghreiriau uwch yn y pyramid.)

A sôn am her rŵan. Neb llai na Bae Colwyn i ffwrdd. Dyma beth yw neidio safon. Mae'n siŵr mai o dan y llifoleuadau yn ystod yr wythnos y chwaraeir y gêm. Dipyn o achlysur i edrych ymlaen ato – mae si fod Derfel yn edrych ymlaen i wisgo 'siwt y clwb' ar gyfer yr achlysur. Gobeithio y daw nifer draw i gefnogi'r hogiau.

Gyda llaw, oes yna dîm erioed wedi ennill y Junior Cup a'r North Wales Challenge?


GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

# CHWARAEON

## Pwy roedd rhain yn herio?



Mae pêl-droed merched yn boblogaidd iawn erbyn hyn, ac ambell i dîm pentref lleol a thimau Ysgol yn cael tipyn o lwyddiant. Ond yn ôl y llun yma roedd pêl-droed merched yn yr ardal yma yn ôl yn 19--. Llun yw hwn a dynnwyd ar y cae ble y mae stad Bro Eglwys ym Methel erbyn hyn. All unrhyw un ein goleuo ynglŷn â'r achlysur ac aelodau'r tîm. Pwy yw'r dyn dewr oedd unai yn hyfforddwr neu ddyfarnwr?

Rwyf wedi cael ambell gliw. Ydy un o'r tîm wedi priodi un o'r asgellwyr gorau welodd Bro'r Eco erioed? A oes un arall wedi priodi 'cefnwr chwith' handi iawn? Oedd y tîm yn hyfforddi trwy yfed digon o lefrith!? Gadewch i ni wybod?

## Ailgynnau'r Fflam

Erbyn i'r rhifyn nesaf ymddangos byddwn ym merw Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Y mae'r pwysau eleni yn aruthrol o gofio llwyddiannau ysgubol y llynedd. I gynhesu'r gwaed bydd y cyfan yn tanio yn erbyn yr hen elyn yn Nhwickenham. Daw y Ffrancwyr, Eidalwyr a'r Albanwyr i Gaerdydd, a bydd y rhengoedd coch – a Bryn Fôn – yn croesi i Ddulyn.

Mae rhai yn darogan eisioes mae'r gemau yn erbyn yr Eidal a'r Albanwyr fydd yr unig lwyddiannau. Sail y pesimistiaeth – ar wahân i'r anafiadau a'r gwaharddiadau diangen – yw perfformiadau pitw ein timau rhanbarthol yng nghwpan Ewrop.

Pob blwyddyn cwyd rhyw optimistiaeth yn y gystadleuaeth hon oherwydd rhyw fuddugoliaeth gynnar. Yn anffodus, nid yw'r Cymry yn gallu rhoi rhes o berfformiadau cyson gyda'i gilydd. Nid yw'r dyfnder gallu yn y carfannau i addasu i ofynion y gystadleuaeth.

Dywed rhai nad oes gobaith oherwydd y fantais ariannol sydd gan dimau Ffrainc a Lloegr i ddenu'r prif chwaraewyr. Mae'n siŵr bod elfen o wirionedd yn hyn, a rhaid cyfeirio hefyd at y torfeydd cymharol fach sydd yn mynychu y 'prif' gemau yng Nghymru, sy'n golygu gostyngiad sylweddol mewn incwm. I raddau, rhaid gofyn pa ganran o'r 72,000 sy'n llenwi Stadiwm y Mileniwm ar gyfer gêm ryngwladol sy'n mynychu gêm glwb ar bnawn Sadwrn? Faint sydd yno am eu bod yn gallu fforddio penwythnos yn y brifddinas – gan gynnwys tocyn?

Mae eraill yn codi'r pwynt o safon yr hyfforddi yng Nghymru. Dau dymor yn ôl mynegwyd siom na roddwyd yr awenau cenedlaethol i'r 'amryddawn' Gareth Jenkins, neu'r 'goleuedig' Lynn Jones. O gofio bod canran helaeth o garfan Cymru ar gael i'r ddau yma, siomedig iawn fu arddull chwarae y Scarlets a'r Gweilch. Yn wir, clywir sibrydion nad yw pob aelod o'r carfannau yn fodlon â'r sefyllfa yn y ddau le.

Serch hyn i gyd, yn ôl ein natur byddwn yn gwisgo ein crysau coch ar gyfer pob gêm. Bydd y gwaed yn berwi, bydd pob dyfarnwr yn cael ei ddiawlio, a byddwn i gyd yn arbenigwyr di-blesio, beth bynnag y canlyniadau.

Sut rydw i'n ei gweld hi? Oherwydd yr anafiadau yn fwy na dim, sydd wedi cipio'r chwaraewyr dylanwadol, rwyf yn gweld Cymru yn ennill tair gêm, a cholli dwy. Pa ddwy? Mi ddwedaf wrthych ar ddiwedd y gyfres.


**am help:**

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**


## Ateb Chwim i'r 'Rhedwyr Chwim'

Ie, dechrau da i'r flwyddyn newydd. Ymateb gan ddarllenwr! Yr hen ffrind o Gonwy – neu Lanber – sef Cecil Jones, gysylltodd wedi gweld y llun o'r rhedwyr traws gwlad. Dyma gwmnïwr diddan, ac unwaith eto cafwyd ymateb llawn hwyl ganddo. Yn amlwg mae ganddo gryn feddwl o'i hen ardal ac yn enwedig Ysgol Brynrefail. Dyma ei ymateb gydag ambell i gyfaddefiad 'ecsclwsif'.

Y mae'n cadarnhau mai'r bechgyn yn y darlun yw Ifan Jeff Owen, Kenneth Harries, Bryan Hughes, Dennis Green, Eryl Hughes, Harry Owen, Arwel Jones, Islwyn Jones, Cecil Jones a Gwilym Jones. Dyma grynodeb o lythyr Cecil.

'Byr gof sydd gennyf am yr achlysur ond rwy'n siŵr mai buddugwyr y rasus traws gwlad a gymerodd le yn fuan wedi agor ysgol newydd Brynrefail yn Llanrug sydd yma. Y pump cyntaf yn ras y *Seniors* yw'r rhes gefn a'r rhai cyfatebol yn ras y *Juniors* yn y blaen. Enillydd y ras *Juniors* oedd Gwilym Jones (Cwm), a minnau'n ail.

Ar y pryd roedd cae yr ysgol ger y groesffordd wrth Eglwys Llanrug. Ar gyfer y rasus, rhaid oedd rhedeg drwy Ceunant a Tan y Coed. Y flwyddyn wedyn roedd cae yr ysgol yn barod, a'r cwrs yn anelu trwy Crawiau ac yna cylchu i gyfeiriad Penbont.

Nid wyf yn cofio os bu rhai o'r rhedwyr yn rasus sirol Sir Gaernarfon, ond fe gynrychiolodd Eryl Hughes (100 llath) a minnau (880 llath) y sir yn y Gemau Cenedlaethol.

Cefais sgwrs yn ddiweddar ag un o'm cyfoedion am y rasus traws gwlad – Gwyn Oliver Jones, dyn siop sglodion Deiniolen. Un garw oedd Gwyn, *entrepreneur* heb ei ail! Sefydlodd ei hun fel bwci'r ysgol ac agorwyd 'llyfr' ar ganlyniad y rasus. Roeddwn i wedi ennill y flwyddyn flaenorol a gofynodd Gwyn i mi am *inside information*. Cyfle am gelc! 'Fi', wrth gwrs gan wybod nad oedd gennyf gyfle. Hon oedd fy mlwyddyn olaf, ac erbyn hyn roedd mercheta ac ambell lasiad yn fwy pwysig nag ymarfer! Heb sôn am y smôcs.

Gwnaeth Gwyn fi'n ffefryn, ac roedd nifer wedi mentro arna i. Alan Jones (Bwlch, Cwm) enillodd, Michael Griffiths (Paentiwr) yn ail a fi'n drydydd sâl. Gwyn yn gwneud celc, a minnau, gan i mi fentro dau swllt ar Alan. Talodd am wydriad yn y 'Padarn Villa'.

Yn 1958 daeth yr Empire Games i Gymru, a chynhelid y rasus rhwyfo ar Lyn Padarn. Roedd y dorch a gariai neges y Frenhines i'w chario, felly, drwy Eryri. Ymysg y cariwyr enwog roedd Roger Bannister a John Disley, a gymrodd drosodd yn Llanberis. Ymysg y cariwyr lleol o Bontrug i Lanberis roedd Arwel, Ken Harries a minnau.

Yn ogystal â'r tri yma roedd Ifan Jeff ac Eryl Hughes yn y tîm pêl-droed hefyd.

Roedd Davies French yn ddylanwad, ac wedi gosod pyst rygbi ar y cae. Rhaid oedd chwarae'r gêm. Prynwyd crysau rygbi – streips coch a gwyrdd a choler wen.

Pwdodd yr hogia ac, yn fwriadol, collwyd pob gêm heb sgorio yr un cais! Tynnwyd y pyst i lawr a dyna ddiwedd ar y gêm ddieflig. Dwi wedi casáu rygbi ers hynny – 'gêm i hogia sydd ddim digon da i chwarae ffwtbol!'

Doedd fawr o siâp ar y tîm ffwtbol – a gorfod chwarae yn y crysau rygbi. Yn y cefn roedd y cryfder. Tri cyhyrog a phenglinia fel reslars – Hugh Tan Graig, Ken Harries a Norman Closs Parry. (Rwy'n siŵr bod Norman yn well pysgotwr a bardd nag oedd fel rhychwr yn amddiffyn Brynrefail). Nid oedd gan y rhain siawns yn erbyn chwaraewyr chwim fel David McCarter (Dyffryn Ogwen) ac Aled Hughes (Pwllheli). Colli fu'r hanes fel arfer.

Yna daeth Aelwyn Pritchard yn athro PT – roedd yn chwaraewr da yng Nghyngrair y Gogledd. Dyma gyfnod y Sgowsars, criw Manceinion a Stoke yn llenwi'r timau lleol, a Gwyddelod yn nhîm Caergybi. Balchder felly oedd i bedwar ohonom o ysgol 'fach' chwarae yn y gynghrair safonol honno – Ifan Jeff, Eryl, Ivor Pritchard a minnau. Chwarae i'r Cofis yn Fflint a gofyn i Mr. Pritchard am bas. Wag yn y dorf yn gweiddi,

*'These Caernarfon boys have good manners.'*

* * *

Diolch i Cecil am ymateb rhagorol. Dyma, i mi, yw hanfod papur bro: balchder, cofio, tynnu coes, datgelu, a hynny mewn iaith ddealladwy hwyliog.

Cefais alwad ffôn hefyd gan Ken Harries, yntau'n sôn am ei gyfnod yn Dubai ac am Bryan Hughes, a aeth yn athro i Lerpwl. Diolch iddo yntau.

Rwy'n siŵr bod sawl atgof a stori yn bodoli gennych. Danfonwch air.


**BWS BACH AR LOG**



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.**
**Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**
**(01248) 361044**
**D. P. OWENS RHIWLAS**